

# Adroddiad Blynyddol

2007–08

un genhadaeth

pedwar gwerth

saith nod strategol



### **Confensiynau**

Daeth Athrofa Addysg Uwch Abertawe (AAUA) yn **Brifysgol Fetropolitan Abertawe** yn ystod y flwyddyn adrodd, a chyfeirir ati yn y cyhoeddiad hwn yn ôl ei henw newydd; a

Daeth Athrofa Addysg Uwch Gogledd-Ddwyrain Cymru (AG-DdC) yn **Brifysgol Glyndŵr** yn yr haf 2008, a chyfeirir ati yn y cyhoeddiad hwn yn ôl ei henw newydd.

Blwyddyn Ariannol (1 Ebrill – 31 Mawrth) 2007-08  
Blwyddyn Academaidd (1 Awst – 31 Gorffennaf) 2007/08

SAUau – Sefydliadau addysg uwch  
SAB – Sefydliadau addysg bellach  
CALI – Cyfwerth ag amser llawn

I gael copiâu ychwanegol o'r adroddiad hwn, e-bostiwch [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk) neu llwythwch gopïau i lawr o [www.hefcw.ac.uk](http://www.hefcw.ac.uk)

### ***Nodiadau ar gyrraedd y targedau yn Ymgeisio'n Uwch:***

Cynnydd tuag at gyrraedd targedau Ymgeisio'n Uwch 2000/01 hyd 2010/11 – fel ym mis Ebrill 2008.

Yn **yr holl dargedau** a gynhwysir yn y cyhoeddiad hwn, heblaw am y targed ar gyfer cwmnïau deilliedig a'r targed ar gyfer gorbenion, mae'r data a ddangosir hyd at 2006/07 yn ddata gwirioneddol a gymerwyd o gofnodion AYAU ar gyfer SAUau'r DU a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) (neu ei gyfwerth) ar gyfer SAUau'r DU.

Yn achos y **targed ar gyfer cwmnïau deilliedig**, mae data hyd at 2005/06 yn ddata gwirioneddol a gymerwyd o'r Arolwg Rhyngweithio Busnes a Chymuned AU (HEBCIS).

Yn achos y **targed ar gyfer gorbenion**, mae data hyd at 2005/06 yn ddata gwirioneddol a gymerwyd o gofnodion yr AYAU.

Ym mis Mai 2007, newidiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y targed cyfrwng Cymraeg, sydd bellach yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n dod o Gymru'n unig.

### **Hawlfraint CCAUC 2008**

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) biau hawlfraint y cyhoeddiad hwn. Gall y deunydd gael ei gopïo neu ei atgynhyrchu ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell ac na ddefnyddir y deunydd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, at elw masnachol. Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig CCAUC ymlaen llaw os bwriedir defnyddio'r deunydd.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein, mewn print bras, Braille, ar CD ac ar CD clywedol. Os bydd arnoch chi neu rywun rydych yn ei adnabod ei hangen mewn fformat gwahanol, byddwch gystal â chysylltu â ni ar (029) 2068 2225 neu e-bostiwch [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk).

# Cynnwys

Cenhadaeth a nodau CCAUC	2
Datganiad y Cadeirydd	5
Datganiad y Prif Weithredwr	6
Y sector AU yng Nghymru – cyllido	7
Y sector AU yng Nghymru – cofrestriadau	12
<b>Cynnydd yn erbyn y nodau craidd strategol</b>	
<i>Ymgynraedd yn ehangach</i>	16
Y 'fargen i fyfyrwyr'	19
Ymchwil ragorol	25
Bod o fudd i'r economi a chymdeithas	28
Hyfforddiant cychwynnol athrawon	30
Gwneud iddi weithio – y sector AU yng Nghymru	31
Gwneud iddi weithio – CCAUC	35
Cyngor CCAUC	38
<b>Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon</b>	41

# Beth mae CCAUC yn ei wneud

Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, a gadarnhawyd gan Ddeddf Addysg 2002, mae CCAUC yn gweinyddu'r cyllid a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a rhai cyrsiau addysg uwch a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae CCAUC yn achredu prifysgolion a cholegau sy'n darparu hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac yn comisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Mae gennym:

un genhadaeth

pedwar gwerth

saith nod strategol

Cenhadaeth CCAUC:

Cenhadaeth CCAUC yw hyrwyddo addysg uwch o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru ac y tu hwnt.

Gan weithio gyda phartneriaid, defnyddiwn y cyllid a gawn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i:

- **sicrhau** dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf;
- **cynyddu** i'r eithaf gyfraniad addysg uwch at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru; a
- **sicrhau** darpariaeth hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar hyd a lled Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal pedwar **gwerth craidd addysg uwch**, sy'n cael eu hadlewyrchu yn ein nodau strategol.

pedwar gwerth craidd:

<b>1</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>4</b>
<p><b>Ysgolheictod a dysgu</b></p> <p>Cynnal diwylliant sy'n gofyn am feddwl disgybledig a gonestrwydd deallusol, yn annog chwilfrydedd, yn herio syniadau sefydledig ac yn esgor ar syniadau newydd.</p>	<p><b>Dysgu gydol oes</b></p> <p>Galluogi unigolion i feithrin eu galluoedd hyd eithaf eu potensial drwy gydol eu bywydau.</p>	<p><b>Cyfrifoldeb dinesig</b></p> <p>Chwarae rhan bwysig mewn hybu dinasyddiaeth dda a siapio cymdeithas gynhwysol ddemocrataidd wedi'i seilio ar barch at hawliau'r unigolyn a chyfrifoldeb tuag at gymdeithas yn ei chyfanrwydd.</p>	<p><b>Cynaliadwyedd</b></p> <p>Gweithio i sicrhau bod y sector yn datblygu'n strwythurol mewn ffordd sy'n arwain at gyflawni'r nodau strategol, a'i fod yn parhau'n gystadleuol yn rhyngwladol.</p>

Mae gennym saith nod strategol craidd:

<b>1</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>4</b>	<b>5</b>
<p><b>Ymgynraedd yn Ehangach</b></p> <p>Sicrhau cyfranogiad a mynediad ehangach er mwyn hybu cymdeithas gynhwysol a gwella sgiliau er lles yr economi.</p>	<p><b>Y 'Fargen i Fyfyrrwyr'</b></p> <p>Sicrhau dysgu a chymorth cysylltiedig o'r safon uchaf.</p>	<p><b>Ymchwil Ragorol</b></p> <p>Sicrhau gwell perfformiad ymchwil a fydd yn sylfaen i'r economi gwybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol</p>	<p><b>Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas</b></p> <p>Sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol.</p>	<p><b>Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon</b></p> <p>Cynhyrchu athrawon newydd gymhwyso o ansawdd uchel.</p>
<b>6</b>			<b>7</b>	
<p><b>Gwneud iddi Weithio: y sector AU yng Nghymru</b></p> <p>Pwyslais cryf ar ail-gyflunio, cydweithio, a mesurau eraill i gynnal perfformiad gwell gan sefydliadau unigol a'r gyfundrefn AU yn ei chyfanrwydd.</p>			<p><b>Gwneud iddi Weithio: CCAUC</b></p> <p>Bod yn gorff sector cyhoeddus effeithiol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• feddu ar y gallu a'r isadeiledd angenrheidiol i weithio'n effeithiol yn fewnol a chyda'n holl randdeiliaid a phartneriaid (yn enwedig Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector AU yng Nghymru)</li> <li>• bod yn ddewis deniadol fel cyflogwr.</li> </ul>	

1

### Ymgynghorwch yn Ehangach

- ymgynghorwyd ar y gwerthusiad o'n cynllun Ymgynghorwch yn Ehangach ac ar weithgareddau ehangu mynediad.
- cyhoeddwyd cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser.
- cyhoeddwyd cyllid ychwanegol ar gyfer partneriaethau Ymgynghorwch yn Ehangach Cymru.

2

### Y 'Fargen i Fyfywr'

- rhoddwyd cymorth i'r sector i sefydlu trefniadau newydd ar gyfer AU cyfrwng Cymraeg.
- cynhyrwyd strategaeth 'dysgu wedi'i gryfhau gan dechnoleg' ar gyfer y sector.
- trefnwyd, drwy GO Wales, dros 600 o leoliadau i fyfyrwyr a graddedigion, a defnyddiwyd ei gyfleuster Swyddi gan 600 o gyrff i hysbysebu swyddi gwag i raddedigion.

3

### Ymchwil Ragorol

- adolygwyd ein polisiâu cyllido ac asesu ymchwil.
- rhoddwyd cymorth ariannol o £5.17 miliwn tuag at sefydliad niwrowyddoniaeth wybyddol.
- cyd-gyllidwyd canolfan newydd i astudio dwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor.

4

### Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas

- gwelwyd sefydliadau AU Cymru yn perfformio'n dda eto yn yr Arolwg Rhyngweithio Busnes a Chymuned AU (HEBCIS) blynyddol.
- cyllidwyd 'Goleufa ar gyfer Cymru', rhaglen gydweithiol i annog prifysgolion i gynnwys cymunedau'n fwy llawn yn eu gwaith.
- cyflwynwyd tystiolaeth i ac ymddangoswyd gerbron ymchwiliad y Cynulliad Cenedlaethol i gyfraniad economaidd addysg uwch.
- cyllidwyd tair rhaglen gydweithiol fawr o dan y Gronfa Trydedd Genhadaeth.

5

### Hyfforddiant Cychwynol Athrawon

- rhoddwyd cyngor i Weinidog Addysg Llywodraeth y Cynulliad ynghylch sut orau i ailgyflunio darpariaeth HCA yng Nghymru.
- cynhyrwyd meini prawf diwygiedig ar gyfer achredu darparwyr HCA yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad

6

### Gwneud iddi Weithio: y sector AU yng Nghymru

- rhoddwyd £5.3 miliwn i Brifysgol Glyndŵr (AG-DdC) i gryfhau ei sefyllfa yng ngogledd-ddwyrain Cymru.
- cymeradwywyd £7.5 miliwn ar gyfer cydweithio arloesol rhwng sefydliadau AU yn ne-orllewin Cymru.
- gweithredwyd dull diwygiedig ar gyfer cyllid cyfalaf.
- cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus ar ryngwladoli.

7

### Gwneud iddi Weithio: CCAUC

- cynhaliwyd ac adroddwyd ar ein harolwg cyntaf o randdeiliaid a phartneriaid.
- lanswyd ein Cynllun Cydraddoldeb Rhyw.
- ymgynghorwyd ar gynllun cydraddoldeb unigol newydd.
- ail-luniwyd y drefniadaeth i'w gwneud yn fwy ymatebol i anghenion Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector AU.

# Datganiad y Cadeirydd



Dyma fy adroddiad cyntaf fel Cadeirydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi i dymor yr Athro Syr Roger Williams yn y swydd ddod i ben. Bu'r Athro Williams yn gweithio'n ddiflino ers 13 blynedd, yn gyntaf fel aelod o'r Cyngor ac yna fel Cadeirydd CCAUC, i roi arweiniad penigamp i'r sector addysg uwch yng Nghymru.

Mae datblygiadau yng Nghymru wedi cyflymu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai adolygiad cynhwysfawr yn cael ei wneud o addysg uwch, gan gynnwys y trefniadau cyllido myfyrwyr yng Nghymru, a dechreuodd Pwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol ymchwiliad i gyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru. Yn erbyn y cefndir hwn, mae sefydliadau addysg uwch Cymru wedi sicrhau rhai cyflawniadau nodedig yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac ar yr un pryd wedi addysgu myfyrwyr yn effeithiol, wedi gwneud ymchwil o'r radd flaenaf, ac wedi gweithio er lles cymunedau a'r economi.

Mae ail-lunio'r sector yn parhau'n brif flaenoriaeth. Rhoddwyd cymorth i dri sefydliad addysg uwch yn ne-orllewin Cymru i sefydlu partneriaeth i integreiddio gwasanaethau; cefnogwyd sefydlu Sefydliad Ymchwil Carbon Isel ar y cyd gan bedair prifysgol; a rhoddwyd cyllid i Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru, Wrecsam i gryfhau ei safle fel sefydliad addysg uwch Cymru yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Sicrhodd yr Athrofa statws prifysgol ac enw newydd, Prifysgol Glyndŵr, yn ystod yr haf, ychydig o fisoedd ar ôl i Athrofa Addysg Uwch Abertawe gyrraedd ei nod o ddod yn Brifysgol Fetropolitan Abertawe.

Mae partneriaethau a mentrau cydweithiol wedi helpu i dynnu sylw at waith sefydliadau addysg uwch Cymru ar lwyfan y byd: rydym yn llongyfarch yr Athro Syr Martin Evans o Brifysgol Caerdydd ar ennill Gwobr Nobel y llynedd am feddygaeth, a'r brifysgol am gael ei chydabod yn un o'r 200 prifysgol orau yn y byd. Hefyd sicrhodd partneriaeth o brifysgolion a chyryff eraill gyllid i ddod yn 'Oleufa' i arwain prifysgolion Cymru yn eu hymdrechion i weithio'n nes â'r cyhoedd.

Nid yw hyn yn golygu nad oes unrhyw sialensiau. Nid yw ymdrechion i gynhyrchu partneriaethau a chyfuniadau o fewn y sector AU yng Nghymru yn llwyddo bob amser, hyd yn oed ar ôl trafodaethau hir, a rhaid i ni weithio'n galed i sicrhau nad yw momentwm yn cael ei gollu. Er i ni wneud cryn gynydd gyda'r dasg a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ailgyflunio darpariaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru, gall y trafodaethau fod yn hir a heriol. Cydnabyddwn fod angen i ni hefyd weithio gyda'r sefydliadau i'w helpu i wella arweinyddiaeth a llywodraethu.

Roedd yn bleser gennyf gael fy newis yn aelod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol, dan gadeiryddiaeth yr Athro Merfyn Jones, ac a sefydlwyd i adolygu AU yng Nghymru wrth i ni nesáu at ddiwedd strategaeth AU bresennol Llywodraeth y Cynulliad, *Ymgeisio'n Uwch*. Mae'n debyg y bydd gan benderfyniadau'r Gweinidog yn sgil adroddiad yr Athro Merfyn Jones oblygiadau dwys ar gyfer AU yng Nghymru yn ystod y degawd nesaf.

Fel corff, rydym wedi cynnal ein harolwg cyntaf erioed o'n partneriaid a rhanddeiliaid. Bu hyn yn arbennig o ddefnyddiol i mi fel Cadeirydd newydd a bydd yn ein helpu i ddiffinio ein rôl ein hunain yn gyfochrog â chanlyniadau'r adolygiad. Er ein bod ni'n falch o'n sgôr cymeradwyaeth, prif werth yr arolwg fu tynnu sylw at nodweddion penodol o'n ffyrdd o weithio. Mae gennym gynlluniau i wella ein heffeithiolrwydd i sicrhau bod ein partneriaid yn parhau'n fodlon ar ein gwaith a bod y bodlonrwydd hwn yn cynyddu.

Yn olaf, hoffwn ddweud gair am staff a Chyngor CCAUC. Yn ogystal â gweld diwedd tymor yr Athro Syr Roger Williams yn ei swydd, roedd yn ddrwg iawn gennym gollu'r Athro Nigel Stott fel aelod o'r Cyngor o ganlyniad i afiechyd. Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Cyngor a staff adran weithredol CCAUC am eu cymorth parod wrth i mi ymgymryd â'r rôl newydd hon. Edrychaf ymlaen at weithio gyda hwy oll yn ystod y misoedd i ddod.

**Mr Roger Thomas, OBE.**



# Datganiad y Prif Weithredwr



Gwnaethom ddyraniadau grant o dros £435 miliwn yn y flwyddyn academaidd 2007/08. Rhoddwyd cefnogaeth ychwanegol i greu cyfoeth a gwybodaeth ac i ddatblygu economaidd a chymdeithasol drwy gynyddu cyllid ar gyfer ymchwil a gweithgareddau trydedd genhadaeth. Parhawyd i geisio ffyrdd o dargedu cyllid yn ddetholus i gefnogi blaenoriaethau strategol.

Er y bu cynnydd bach mewn cyllid gwirioneddol ar gyfer y sector yn gyffredinol, cydnabuwyd y byddai'n rhaid i'r sector addysg uwch (AU) yng Nghymru weithio'n galed i barhau'n gystadleuol yn y DU ac y tu hwnt.

Rydym yn parhau'n weddol optimistaidd ynghylch perfformiad y sector yng Nghymru yn erbyn y targedau a osodwyd yn *Ymgeisio'n Uwch*, strategaeth ddeng-mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer AU.

Rydym ni'n helpu sefydliadau i weithio tuag at eu nodau drwy ddarparu cyllid mewn nifer o feysydd targed. Er enghraifft, targedwn gyllid drwy ein premiwm ehangu mynediad (£5.5 miliwn), sy'n rhoi cymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, drwy ein cynllun *Ymgynraedd yn Ehangach* (£2 filiwn), a thrwy ddyrannu £1.8 miliwn arall i sefydliadau i'w helpu i weithredu eu strategaethau ehangu mynediad.

Cafwyd perfformiad cryf gan y sector wrth iddo recriwtio 12% o israddedigion newydd o Gymru o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Mae Cymru'n parhau i ddenu myfyrwyr tramor. Bu cynnydd o 15.4% yn nifer y myfyrwyr tramor eleni, o'i gymharu â 7.4% yn y DU yn gyffredinol (heb gynnwys tynfa unigryw Llundain a de-ddwyrain Lloegr).

Mae'r nod o gynyddu cyfran y myfyrwyr AU o Gymru mewn SAUau a SABau Cymreig sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau'n her. Buom yn gweithio gyda'r sefydliadau, Addysg Uwch Cymru (AUC) a'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg i helpu'r sector i sefydlu fframwaith a chynllun datblygu cenedlaethol newydd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Rydym bellach hanner ffordd drwy oes *Ymgeisio'n Uwch* ac mae'r ffigur yn parhau'n gyson ar ychydig dros 5%.

Er bod gorbenion yng Nghymru yn parhau'n is na'r cyfartaledd ar gyfer y DU, mae'r targed ar gyfer eu lleihau ymhellach mewn perthynas â gweddill y DU (ac eithrio Llundain a'r de-ddwyrain) yn parhau'n heriol.

Mae'r canran o gyllid y Cyngorau Ymchwil a ddenir gan SAUau yng Nghymru yn parhau ychydig dros 3% yn unig, ond rydym yn optimistaidd y bydd nifer o fuddsoddiadau'n gysylltiedig ag ymchwil drwy'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio yn dwyn ffrwyth cyn bo hir. Yn ogystal, mae'r sector eisoes wedi rhagori ar y targed ar gyfer cynyddu incwm ymchwil o ffynonellau heblaw am y Cyngorau Ymchwil, a hynny flwyddyn yn gynnar.

Mae ail-lunio'r sector i'w wneud yn fwy cystadleuol a chynaliadwy, drwy gyfrwng gydweithio neu gyfuno, yn parhau'n un o nodau'r Cyngor a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ystod y flwyddyn adrodd, rhoddwyd cefnogaeth ariannol i Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru a'r Sefydliad Ymchwil Carbon Isel, sydd nid yn unig yn ddatblygiadau o bwys ynddynt hwy eu hunain, ond hefyd yn rhoi'r sector AU yng Nghymru mewn sefyllfa gryfach i gystadlu am gyllid ymchwil ar raddfa'r DU.

Yn olaf, mae'r sector AU yng Nghymru eisoes wedi cyrraedd targed 2010/11 o ddyblu nifer y cwmnïau deilliedig proffidiol a gynhyrchir bob blwyddyn, ac mae perfformiad da yn y maes hwn wedi'i gofnodi'n rheolaidd yn ymarfer HEBCIS cyrff cyllido'r DU yn ystod y blynnyddoedd diweddar.

Er ein bod ni'n falch bod cyflwr ariannol cyffredinol y sector yn parhau i wella, fe fyddwn, fel bob amser, yn cadw llygad barcud ar y sefyllfa i helpu i liniaru effaith posibl unrhyw ddiffygion gweithredol mewn sefydliadau unigol.

Roedd rhai o brif ddatblygiadau polisi'r flwyddyn yn cynnwys adolygiad o'n polisi ymchwil a'n dull cyllido ymchwil, a strategaeth ar gyfer gwella dysgu ac addysgu drwy dechnoleg ar gyfer y sector AU yng Nghymru. Hefyd cyhoeddwyd cynigion ar gyfer fframwaith asesu ymchwil y dyfodol – y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil – gyda chyrrff cyllido eraill y DU.

Yn olaf, mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r gweithgareddau yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i ni ymgymryd â hwy ac a nodir yn ein cynllun gweithredol. Rydym wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r rhain, ac yn gwneud cynnydd da gyda'r gweddill. Ni allem fod wedi gwneud hyn heb ymroddiad a phroffesiynoldeb staff adran weithredol fach CCAUC.

Yr Athro Philip Gummert



## Dyraniadau cyllid fformiwla 2007/08

Sefydliad	Cyfanswm Cyllid Fformiwla ar gyfer Addysgu	Ymchwil (QR) a (RIF)	Dyraniadau o'r Gronfa Trydedd Genhadaeth	YOR	Cyfanswm
	£	£	£	£	£
Prifysgol Morgannwg	48,242,293	1,967,066	863,760	344,312	51,417,431
Prifysgol Aberystwyth	24,527,521	6,199,267	469,895	397,090	31,593,773
Prifysgol Bangor	22,893,217	8,732,943	570,495	563,604	32,760,259
Prifysgol Caerdydd	66,943,443	40,520,891	1,483,954	2,932,684	111,880,972
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	4,813,012	1,359,189	155,423	91,298	6,418,922
Prifysgol Abertawe	27,603,730	8,766,516	1,197,088	926,685	38,494,019
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	25,119,571	1,225,347	470,054	66,160	26,881,132
Prifysgol Cymru, Casnewydd	18,513,851	432,164	259,447	31,233	19,236,695
Prifysgol Glyndŵr	14,790,999	120,202	212,212	6,532	15,129,945
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	14,517,174	81,218	195,257	5,789	14,799,438
Coleg y Drindod Caerfyrddin	5,596,360	0	151,902	0	5,748,262
Cofrestrfa Prifysgol Cymru	0	245,535	0	0	245,535
Coleg Sir Gâr	1,084,769	0		0	1,084,769
Coleg Llandrillo Cymru	1,274,940	0		0	1,274,940
Coleg Abertawe	46,882	0		0	46,882
Coleg Castell-nedd Port Talbot	110,206	0		0	110,206
Coleg Pen-y-bont	71,452	0		0	71,452
Coleg Menai	56,979	0		0	56,979
<b>Cyfanswm</b>	<b>276,206,402</b>	<b>69,650,337</b>	<b>6,029,487</b>	<b>5,365,384</b>	<b>357,251,610</b>

\*Mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n adio i'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu

# Beth mae'r ffigurau'n ei ddangos

## Ein grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Derbyniwn ein grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar sail blwyddyn ariannol (BAR) (1 Ebrill hyd 31 Mawrth), ond dyrannwn y rhan fwyaf o'n cyllid ar sail blwyddyn academiaidd (BAc) (1 Awst hyd 31 Gorffennaf).

Cyhoeddwyd dyraniadau grant o dros £435 miliwn ar gyfer addysg uwch yn 2007/08.

Yn y flwyddyn ariannol 2007-08, roedd cyfanswm ein grant gan y Cynulliad yn **£424.9 miliwn**.

Roedd hyn yn cynnwys:

Cyllid am raglenni rheolaidd o **£371.7 miliwn**;

Cyllid uwchlaw'r waelodlin o **£21 filiwn** i gefnogi amcanion Ymgeisio'n Uwch;

Cyfalaf Ymgeisio'n Uwch o **£3 miliwn**;

Cyllid cyfalaf o **£18.396 miliwn**;

Cyllid rhaglen o **£7.7 miliwn** i'r Brifysgol Agored; a

Chostau rhedeg o **£3.101 filiwn**.

## Dyraniadau cyllid fformiwla ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2007/08

Roedd setliad y flwyddyn ariannol hon yn caniatáu i ni ddyrannu **£357.3 miliwn** mewn grant fformiwla i'r sector ar gyfer addysgu, trydedd genhadaeth, ymchwil a hyfforddiant ymchwil ôl-radd.

Yn nhermau arian parod, 3.84% oedd y cynnydd cyfartalog mewn dyraniadau cyllid fformiwla i'r sefydliadau addysg uwch (SAUau) o'u cymharu â dyraniadau 2006/07.

### Cyllid premiwm

Gwnaethom daliadau 'premiwm' neu ychwanegol ar gyfer ehangu mynediad, myfyrwyr anabl a myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Dyrannwyd £215 ychwanegol am bob myfyriwr cymwys hefyd ar gyfer ehangu mynediad a daliwyd ati i dalu'r premiwm ychwanegol, a oedd hefyd yn £215, am bob myfyriwr cymwys o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Dosbarthwyd £5.5 miliwn drwy'r taliadau premiwm ehangu mynediad cyfunol.

Cafodd SAUau £220 ychwanegol am bob myfyriwr anabl cymwys, gan godi'r cyllid a ddyrannwyd yn y maes hwn i fwy na £700K. Dosbarthwyd rhyw £1.4 miliwn drwy ddyraniadau premiwm cyfrwng Cymraeg.

### Ymchwil

Bu cynnydd:

- o 2.66% ar gyfer yr holl ymchwil a oedd wedi cael graddau 5\*, 5 a 4, a dyrannwyd £3 miliwn o arian ychwanegol a oedd wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i helpu sefydliadau i gwrdd â chostau economaidd llawn gwaith ymchwil a gyllidir gan elusennau; ac
- o 2.66% ar gyfer hyfforddiant ymchwil ôl-radd (YOR).

Cynhaliwyd y lefel sylweddol o gymorth a ddarperir drwy ein Cronfa Buddsoddi mewn Ymchwil gwerth £4.14 miliwn, a ddefnyddir i hybu ymchwil datblygol, gwella meysydd ymchwil sy'n gryf eisoes, neu ail-lunio portffolios ymchwil.

## Dyraniadau cyllid fformiwla ar gyfer y flwyddyn academaidd 2007/08

**£276.2 filiwn** ar gyfer addysgu

**£69.7 miliwn** ar gyfer ymchwil

**£5.37 miliwn** ar gyfer hyfforddiant ymchwil ôl-radd

**£6.03 miliwn** ar gyfer gweithgareddau trydedd genhadaeth

**£7.87 miliwn** i'r Brifysgol Agored yng Nghymru

### Cyllid Ymgeisio'n Uwch uwchlaw'r waelodlin (wedi'i drosi'n gyllid blwyddyn academaidd)

Drwy gyllid uwchlaw'r waelodlin o dan strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ymgeisio'n Uwch, darparwyd £16.1 filiwn i gefnogi ailgyflunio a chydweithio yn y sector, gyda swm o £2 miliwn yn cael ei ddyrannu i ehangu mynediad a swm arall o £3 miliwn yn cael ei glustnodi ar gyfer cyllid cyfalaf.

### Trydedd genhadaeth

Cynyddodd ein Cronfa Trydedd Genhadaeth i £6.03 miliwn. Gwariwyd cyfanswm o £2.1 filiwn ar gynlluniau cyflogaeth i raddedigion.

## Dyraniadau cyllid di-fformiwla ar gyfer y flwyddyn academaidd 2007/08

Roedd cyfanswm ein cyllid di-fformiwla yn £15.71 filiwn ar gyfer grantiau'n gysylltiedig ag addysgu, a oedd yn cynnwys cymorth i fyfyrwyr, hyfforddiant cychwynol athrawon, a dysgu ac addysgu. Hefyd dyrannwyd £1.04 miliwn i helpu sefydliadau i gwrdd â'r cynnydd mewn costau o dan y Cynllun Pensiwn Athrawon.

### Mentrau ar y cyd

Cyfrannwyd cyfanswm o £8.9 miliwn at fentrau ar y cyd, gyda chyrrff cyllido eraill y DU, er enghraifft £2.285 miliwn ar gyfer y Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC) sy'n darparu'r cyd rwydwaith academaidd (JANET).


### Cyllid cyfalaf

Mae ein grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys cyllid cyfalaf wedi'i glustnodi i gefnogi datblygu'r isadeiledd ar gyfer ymchwil, ac ar gyfer dysgu, addysgu a TG. Dyrannwyd £20.2 filiwn yn y maes hwn yn 2007/08.

## Cyfanswm y cyllid fformiwla a di-fformiwla ar gyfer y sector AU yn y flwyddyn academaidd 2007/08

Roedd cyfanswm ein dyraniadau rheolaidd – fformiwla a di-fformiwla – a'n grant cyfalaf ar gyfer 2007/08 yn £414.76 miliwn.

Dyraniadau cyllid fformiwla, cyfansymiau 2007/08




# Cyllid CCAUC ar gyfer y flwyddyn academaidd 2007/08

<b>Grant Rheolaidd</b>	
	<b>Gwariant hyd fis Gorffennaf 2008 (£)</b>
<b>Grant ar gyfer Addysgu</b>	
Prif grant fformiwla	264,040,021
Y pen	4,507,539
Premiwm ehangu mynediad	5,529,306
Premiwm cyfrwng Cymraeg	1,375,153
Premiwm anabled	754,380
<b>Cyfanswm</b>	<b>276,206,399</b>
<b>Y Brifysgol Agored</b>	
<b>7,874,000</b>	
<b>Grantiau'n Gysylltiedig ag Addysgu</b>	
Ehangu mynediad	1,793,921
Strategaethau dysgu ac addysgu	2,453,246
Cyfrwng Cymraeg (Cronfa, Uned, Canolfan AU Cyfrwng Cymraeg a Chynlluniau Arbennig)	577,725
Cynlluniau Arbennig Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA)	6,000
Strategaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA)	1,166,470
Ad-dalu ffioedd i fyfyrwyr ERASMUS	1,000,820
Hepgor ffioedd rhan-amser	1,000,000
Cyllid Graham	6,400,000
Ysgol Glinigol Gogledd Cymru	1,053,400
Partneriaethau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA)	260,770
<b>Cyfanswm</b>	<b>15,712,352</b>
Cynllun Pensiwn Athrawon	1,040,260
<b>Grantiau ar gyfer Ymchwil</b>	
Grant seiliedig ar Ymarfer Asesu Ymchwil (QR)	65,509,381
Cronfa Buddsoddi mewn Ymchwil (RIF)	4,140,959
Cynlluniau – gan gynnwys Bwrdd Ymchwil, y Cynllun Gwobrau i Fyfyrwyr Ymchwil Tramor a Bwrdd a Gwasg Prifysgol Cymru	822,428
<b>Cyfanswm</b>	<b>70,472,768</b>
<b>Grant ar gyfer hyfforddiant ymchwil ôl-radd</b>	
<b>5,365,384</b>	
<b>Grantiau Trydedd Genhadaeth</b>	
Cronfa Trydedd Genhadaeth	6,029,757
Cynlluniau Cyflogaeth Graddedigion	2,135,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>8,164,757</b>

<b>Grantiau y tu allan i'r Brif Ffrwd</b>	
yn cynnwys – y Rhwydwaith Cymorth Dysgu ac Addysgu, y Cyd-bwyllgor Systemau	
Gwybodaeth, rhaglenni Sicrhau Ansawdd AU, cyllid anabledd	<b>9,741,219</b>
<b>Cyllid Strategaeth AU</b>	
<b>(dyraniad ar sail BAR wedi'i throsi'n BAc)</b>	
Ailgyflunio a Chydweithio (mae'n cynnwys cyllid a glustnodwyd gan y Cynulliad a chyllid o grant gwaelodlin CCAUC)	16,088,333
Ymgynraedd yn Ehangach	2,000,000
Cyfalaf Ymgeisio'n Uwch	3,000,000
	<b>21,088,333</b>
<b>Cyfanswm Cyllid Rheolaidd</b>	<b>Cyfanswm 415,665,472</b>
<b>Cyfalaf (dyraniad ar sail BAR wedi'i throsi'n BAc)</b>	<b>20,179,000</b>
yn cynnwys isadeiledd ar gyfer ymchwil ac addysgu a dysgu	
<b>Cyfanswm Terfynol</b>	<b>435,844,472</b>

### Dyraniadau eraill 2007/08



## Cofrestriadau yn ôl sefydliad, lefel a modd 2007/08

	Israddedigion - gradd		Israddedigion - nid gradd		Israddedigion (IR)	
	Amser-llawn	Rhyngosod	Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-amser (heb gynnwys ffranseis)	Rhan-Amser (Ffranseis)
Prifysgol Morgannwg	9,247	133	1,683	0	5,445	1,712
Prifysgol Aberystwyth	5,662	68	93	30	1,895	30
Prifysgol Bangor	5,635	34	93	0	1,328	42
Prifysgol Caerdydd	15,471	269	100	0	3,859	0
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	1,014	0	72	0	2,203	5
Prifysgol Abertawe	8,525	59	92	0	2,012	0
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	5,633	38	511	0	794	92
Prifysgol Cymru, Casnewydd	2,972	0	256	0	2,129	1,883
Prifysgol Glyndŵr	2,113	0	208	0	3,333	568
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	2,461	5	278	0	1,348	0
Coleg y Drindod Caerfyrddin	1,081	0	0	0	800	0
Coleg Pen-y-bont	0	0	30	0	10	0
Coleg Sir Gâr	242	0	0	0	72	0
Coleg Llandrillo Cymru	92	0	117	0	577	0
Coleg Abertawe	0	0	10	0	4	0
Coleg Menai	0	0	0	0	19	0
Coleg Castell-nedd Port Talbot	0	0	23	0	43	0
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	0	0	0	0	4,144	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>60,148</b>	<b>606</b>	<b>3,566</b>	<b>30</b>	<b>30,014</b>	<b>4,332</b>

Ffynhonnell: Arolwg Monitro Diwedd Blwyddyn (EYM) o Gofrestriadau Addysg Uwch 2007/08

Nodiadau:

- (1) Cyfrifir myfyrwyr rhyngosod fel 1
- (2) Cynhwysir cofrestriadau cyllidawdy, anghyllidawdy, tramor ac ynysoedd
- (3) Mae ffranseis yn cynnwys israddedigion rhan-amser yn unig
- (4) Mae Israddedigion Rhan-amser yn cynnwys cofrestriadau gradd ac nid gradd
- (5) Mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n adio i'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu

Ôl-radd a addysgir			Ymchwil Ôl-radd			Cyfanswm
Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-Amser	Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-Amser	
1,076	0	1,747	188	0	215	21,446
445	0	782	221	0	63	9,289
840	0	734	364	0	119	9,188
2,032	0	2,252	1,190	0	309	25,482
301	0	543	96	0	113	4,347
715	0	642	445	0	134	12,624
1,300	0	477	109	0	112	9,066
261	0	972	30	0	26	8,529
214	0	319	31	0	34	6,820
412	0	563	11	0	60	5,138
121	0	76	0	0	0	2,077
0	0	0	0	0	0	40
0	0	0	0	0	0	314
0	0	0	0	0	0	786
0	0	0	0	0	0	14
0	0	0	0	0	0	19
0	0	0	0	0	0	66
0	0	376	0	0	0	4,520
<b>7,716</b>	<b>0</b>	<b>9,483</b>	<b>2,685</b>	<b>0</b>	<b>1,185</b>	<b>119,764</b>




## Cofrestriadau yn ôl statws ffi, lefel a modd 2007/08

		Cofrestriadau Amser-llawn	Cofrestriadau Rhyngosod	Cofrestriadau Rhan-amser	Cyfanswm Cofrestriadau
<b>Cartref a CE cyllidawdy</b>	Israddedigion	51,332	554	32,061	83,947
	Israddedigion nid gradd	2,994	30	0	3,024
	Ôl-radd a addysgir	3,718	0	8,126	11,843
	Ymchwil ôl-radd	1,731	0	813	2,544
	<b>Cyfanswm</b>	<b>59,774</b>	<b>584</b>	<b>41,000</b>	<b>101,357</b>
<b>Cartref a CE anghyllidawdy</b>	Israddedigion	5,136	0	1,626	6,762
	Israddedigion nid gradd	257	0	0	257
	Ôl-radd a addysgir	214	0	363	577
	Ymchwil ôl-radd	104	0	214	318
	<b>Cyfanswm</b>	<b>5,711</b>	<b>0</b>	<b>2,203</b>	<b>7,914</b>
<b>Tramor (yn cynnwys Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw)</b>	Israddedigion	3,680	52	659	4,391
	Israddedigion nid gradd	316	0	0	316
	Ôl-radd a addysgir	3,784	0	994	4,778
	Ymchwil ôl-radd	851	0	158	1,009
	<b>Cyfanswm</b>	<b>8,630</b>	<b>52</b>	<b>1,811</b>	<b>10,493</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>74,114</b>	<b>636</b>	<b>45,014</b>	<b>119,764</b>	

### Monitro diwedd blwyddyn (EYM) 07/08 cofrestradau yn ôl lefel a modd

Israddedigion - gradd	Amser-llawn/Rhyngosod	60,754
Israddedigion - nid gradd	Amser-llawn/Rhyngosod	3,596
Israddedigion	Rhan-amser	34,346
Ôl-radd a addysgir	Amser-llawn/Rhyngosod	7,716
	Rhan-amser	9,483
Ymchwil ôl-radd	Amser-llawn/Rhyngosod	2,685
	Rhan-amser	1,185

## Cofrestriadau yn ôl lefel a modd




### Monitro diwedd blwyddyn (EYM) 07/08 cofrestriadau yn ôl lefel

Israddedigion	98,696
Ôl-radd a addysgir	17,198
Ymchwil ôl-radd	3,870


### Monitro diwedd blwyddyn (EYM) 07/08 cofrestriadau yn ôl modd

Amser-llawn	74,114
Rhyngosod	636
RhA - IR ffranseis	4,332
RhA Arall	40,682

## Cofrestriadau yn ôl lefel



## Cofrestriadau yn ôl modd



# Ymgynraedd yn ehangach

## Y cyd-destun

Mae ehangu mynediad i addysg uwch er mwyn hybu cymdeithas gynhwysol a gwella sgiliau er lles yr economi yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae sefydliadau addysg uwch (SAUau) yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i annog pobl o bob oedran i wella eu sgiliau a chymryd rhan mewn addysg uwch (AU) beth bynnag yw eu cefndir. Mae CCAUC yn helpu SAUau wrth iddynt ymateb i anghenion ac amgylchiadau corff amrywiol o fyfyrwyr. Mae ein prif gynllun, Ymgynraedd yn Ehangach, yn darparu rhaglenni arloesol ar gyfer grwpiau targed allweddol sydd yn draddodiadol heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU: pobl o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf<sup>1</sup>, grwpiau du ac ethnig lleiafrifol (DELI), myfyrwyr anabl, a'r rheiny sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Ein nodau

- Cynyddu mynediad i addysg uwch i'r rheiny a all elwa arni drwy annog sefydliadau i ystyried ceisiadau gan bob cymuned.
- Gweithio gyda'r sector AU i hybu a chydlynu gweithgareddau ehangu mynediad a rhannu arfer da ar draws Cymru.
- Cefnogi gwaith i annog plant dan ofal ac ymadawyr gofal i ystyried cyfleoedd mewn addysg uwch.

## Yr hyn a wnawn

- Rhoddwn gyllid i sefydliadau addysg uwch i gynhyrchu strategaethau i ehangu mynediad a chynyddu darpariaeth i fyfyrwyr anabl.
- Ehangu mynediad yw un o'n meysydd blaenoriaethol ar gyfer dosbarthu ein cyllid craidd yn fwy strategol oherwydd bod costau ychwanegol yn gysylltiedig â recriwtio a chadw myfyrwyr o gefndiroedd lle nad oes llawer o draddodiad o gymryd rhan mewn AU. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol, meithrin sgiliau neu fagu hyder ar rai darpar ymgeiswyr cyn y byddant yn ystyried dechrau cwrs AU.

- Rhoddwn gyllid ychwanegol i sefydliadau ar gyfer myfyrwyr o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac ar gyfer myfyrwyr sy'n derbyn lwfans myfyrwyr anabl.
- Mae gennym bwyllgor ehangu mynediad i gynghori ein Cyngor ar bolisi, y penodir ei haelodau o bob rhan o'r sector AU yng Nghymru.
- Mae ein cynllun Ymgynraedd yn Ehangach yn cefnogi pedair partneriaeth AU/AB ranbarthol. Mae'r partneriaethau hyn yn darparu rhaglenni rhyngweithiol sydd â'r nod o ehangu mynediad, hybu cydlynu gweithgareddau ar raddfa ranbarthol, a rhannu arfer da ar draws y sector.

## Cyflawniadau yn 2007-08

- Derbyniodd SAUau £2 filiwn yn 2007/08 ar gyfer y cynllun Ymgynraedd yn Ehangach, £1.8 miliwn i helpu i weithredu strategaethau ehangu mynediad, £5 miliwn ar gyfer cyllid premiwm ehangu mynediad (gan gynnwys cyllid wedi'i dargedu ar gyfer myfyrwyr Cymunedau'n Gyntaf<sup>1</sup>, a myfyrwyr â chymwysterau an-nhraddodiadol) a £700K ar gyfer myfyrwyr anabl.
- Ymgynghorwyd ar ganlyniadau'r gwerthusiad annibynnol o'n polisiâu ar gyfer ehangu mynediad a'r cynllun Ymgynraedd yn Ehangach.
- Gwerthuswyd effaith cyflwyno ffioedd hyblyg ar ehangu mynediad.
- Ymgynghorwyd ar y gwerthusiad annibynnol o'n cynllun Ymgynraedd yn Ehangach ac ar weithgareddau ehangu mynediad, gan gasglu barn sefydliadau AU a phartneriaid eraill er mwyn gwneud ein gweithgareddau ehangu mynediad yn fwy effeithiol.
- Cyhoeddwyd y byddai cymorth ariannol ychwanegol ar gael i fyfyrwyr rhan-amser. Byddwn yn rhoi cronfa flynyddol o £6.4 miliwn o'r neilltu am y tair blynedd nesaf i gynnal a chryfhau rhaglenni rhan-amser, gan helpu i ehangu mynediad i fyfyrwyr rhan-amser a chryfhau ymwneud SAUau â chyflogwyr wrth ddarparu addysg uwch ran-amser.

Perfformiad yn erbyn tasgau yn y llythyr cylch gwaith

Gweithred	Canlyniad
<p>Cymryd camau i annog mwy o sefydliadau i weithio gydag Ymddiriedolaeth Frank Buttle tuag at ennill y Nod Ansawdd ar gyfer Ymadawyr Gofal, a gweithio gyda'r sector i ddatblygu arweiniad ar ymadawyr gofal mewn addysg uwch.</p>	<p>Yn parhau. Darparwyd diweddariad fel rhan o gyngor Rhagfyr 2007 i'r Gweinidog ar bolisiau ehangu mynediad [<i>gweler isod</i>]. Mae tri sefydliad wedi ennill y Nod Ansawdd (Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Glyndŵr) ac mae o leiaf dri arall yn agos at gyflwyno ceisiadau. Mae arweiniad wedi cael ei lunio a'i drafod â'r Pwyllgor Ehangu Mynediad. Caiff ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r sector gyda'r nod o'i lansio yn y gynhadledd arfaethedig ar weithio gydag ymadawyr gofal ym mis Tachwedd 2008.</p>
<p>Yng ngoleuni'r trefniadau ffioedd hyblyg newydd sy'n cael eu cyflwyno yng Nghymru, a'r adolygiad o'n polisiau ehangu mynediad yr ymgwymerwyd ag ef y llynedd, rhoi cyngor rhagarweiniol i'r Cynulliad ar a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynlluniau ehangu mynediad a gyllidir drwy CCAUC erbyn mis Rhagfyr 2007.</p>	<p>✓ Cyflawnwyd. Ar ôl cael ei ystyried gan y Pwyllgor Ehangu Mynediad a'r Cyngor, cyflwynwyd y cyngor ym mis Rhagfyr 2007.</p>
<p>Cynorthwyo'r Cynulliad fel y bo angen i ddatblygu'r mecanwaith ar gyfer targedu'r cyllid ychwanegol a ddarperir mewn ymateb i Adolygiad Graham o astudio rhan-amser, a chynllunio ar gyfer prifffrydio'r cyllid hwn yn y dyfodol.</p>	<p>✓ Cyflawnwyd. Cafodd mecanwaith arfaethedig ar gyfer dosbarthu'r gyfran o gyllid Adolygiad Graham a drosglwyddir i CCAUC ei ddatblygu ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad, ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 29 Mehefin 2007.</p>

<sup>1</sup> Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yw'r 100 ward etholiadol fwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadiad Lluosol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Ehangu mynediad

Canran yr holl israddedigion newydd o Gymru ar gyrsiau AU mewn SAUau neu SABau yn y DU sy'n byw yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Cymru i godi o 8.9% yn 2000/01 i 11.4% erbyn 2010/11.

	2000/01			2001/02			2002/03		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
SAUau Cymru	2,733	26,848	10.2%	3,036	27,857	10.9%	3,408	28,903	11.8%
SAUau a SABau y DU*	3,484	39,056	8.9%	4,053	42,181	9.6%	4,364	43,077	10.1%
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	2.0% - 15.8%			2.2% - 16.4%			2.6% - 17.4%		
	2003/04			2004/05			2005/06		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
SAUau Cymru	3,401	29,577	11.5%	3,448	29,687	11.6%	3,325	28,937	11.5%
SAUau a SABau y DU*	4,450	44,300	10.0%	4,351	42,589	10.2%	4,244	42,912	9.9%
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	4.2% - 16.0%			3.3% - 16.0%			2.8% - 15.6%		
	2006/07								
	Nifer	Cyfanswm	%						
SAUau Cymru	3,618	30,197	12.0%						
SAUau a SABau y DU*									
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	3.6% - 17.4%								

Mae'r ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn cyfateb i'r 100 ward etholiadol fwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadiad Lluosol y Cynulliad. Myfyrwyr sy'n byw o fewn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yw'r rheiny y mae eu codau post cartref o fewn un o'r ardaloedd hyn.

Mae'r canran o fyfyrwyr sy'n byw yn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf wedi'i gyfrifo ar sail myfyrwyr o Gymru yn y sefydliad y mae eu wardiau'n hysbys. Cymerir bod myfyrwyr yn dod o Gymru os yw eu cod post cartref yng Nghymru.

Cynhwysir pob modd astudio.

Yn 2003/04, roedd gan un sefydliad gyfran fawr o godau post nad oedd modd eu mapio (16%) ac mae'n bosibl bod hyn wedi effeithio ar y ffigur ar gyfer y canran o fyfyrwyr sy'n byw yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Cymru.

\*Roedd ffigurau'r DU ar gyfer 2001/02 a 2002/03 yn cynnwys data ar gyfer SABau y DU o 2000/01 fel amcangyfrif. Mae'r ffigurau a gyflwynir yma yn cynnwys data gwirioneddol SABau y DU ar gyfer y cyfnod rhwng 2000/01 a 2005/06.

# Y 'fargen i fyfyrwyr'

## Y cyd-destun

Rydym yn helpu sefydliadau addysg uwch Cymru i hybu addysgu rhagorol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o ansawdd uchel. Rydym ni'n gyfrifol am sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a gyllidir yn y sefydliadau yn cael ei asesu ac am helpu'r sector addysg uwch (AU) yng Nghymru i gyrraedd ei darged ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, sef bod 7% o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yn cymryd peth o'u cwrs AU drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Ein nodau

- Gweld sector addysg uwch sy'n cymharu'n ffafriol â gweddill y DU a gwledydd tramor o ran darparu dysgu ac addysgu o ansawdd uchel.

## Yr hyn a wnawn

- Cyllidwn strategaethau dysgu ac addysgu sefydliadol ac anogwn sefydliadau i rannu arfer da.
- Gweithiwn yn agos gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) ar gyfer Addysg Uwch i fonitro'r hyn a wneir gan sefydliadau i ddiogelu ansawdd a safonau eu dyfarniadau.
- Gweithiwn gyda'r Academi AU i wella ansawdd a safonau a chydag Uned Ewrop AU y DU ar gyfleoedd UE, a chyda Chonsortium Rhyngwladol Cymru ar faterion rhyngwladol.
- Cefnogwn gynnal a datblygu cyrsiau cyfrwng Cymraeg drwy roi cyllid i sefydliadau addysg uwch (SAUau) a thrwy gefnogi'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.
- Mae ein Pwyllgor Dysgu ac Addysgu yn cynghori'r Cyngor ar faterion polisi yn y maes hwn ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector AU yng Nghymru.

## Cyflawniadau yn 2007–08

- Datblygwyd strategaeth 10 mlynedd newydd ar gyfer gwella dysgu ac addysgu drwy dechnoleg. Cyhoeddwyd hefyd y byddem ni'n dyrannu £1 filiwn yn ychwanegol i helpu ac annog sefydliadau i fanteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan dechnoleg i gwrdd ag amcanion y strategaeth newydd.

- Buom yn gweithio'n agos â'r sefydliadau, Addysg Uwch Cymru (AUC) a'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg i helpu'r sector i sefydlu fframwaith a chynllun datblygu cenedlaethol newydd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddyrannu cyllid Ailgyflunio a Chydweithio i weithredu'r cynllun datblygu.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad a darparwyd arweiniad ar sut mae ein taliadau premiwm cyfrwng Cymraeg yn gweithio, a gostyngwyd y trothwy cymhwyster ar gyfer y premiwm cyfrwng Cymraeg er mwyn annog datblygu darpariaeth newydd.
- Gyda'r ASA, gweithredwyd dull newydd o adolygu darpariaeth AU a gyllidir yn uniongyrchol mewn colegau addysg bellach.
- Adroddwyd ar ganlyniadau adroddiad York Consulting a gomisiynwyd gan CCAUC, *The Extent and Effectiveness of Student Representation Structures within Higher Education Institutions across Wales*. Roedd rhai o'r canlyniadau'n cynnwys: ystyriai pob sefydliad fod myfyrwyr yn bwysig o ran gwella ansawdd; roedd y systemau yn y mwyafrif o sefydliadau wedi'u datblygu'n dda gyda chysylltiadau rhwng uwch reolwyr a Llywydd Undeb y Myfyrwyr, er bod dulliau gwahanol o gydlyn systemau; ac roedd gwendidau ar lefel y gyfadran, ysgol neu adran yn fwy amlwg yn aml, a bod sylw'n cael ei roi i'r rhain.
- Dangosodd Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2007 fod 83 y cant o fyfyrwyr yng Nghymru yn fodlon ar eu profiad. Roedd hyn yn uwch na'r ffigur ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd. Hefyd roedd y canlyniadau'n dangos canlyniadau gwell ar gyfer cymorth academaidd ac adnoddau dysgu. Fel yng gweddill y DU, roedd y lefelau isaf o foddhad eto ym meysydd asesu ac adborth, gyda 61% yn unig o fyfyrwyr yn mynegi bodlonrwydd. Yng Nghymru, buom yn gweithio gyda'r Academi Addysg Uwch i wella asesu myfyrwyr.
- Prosiect arloesol yw Rhwydwaith Fideo Cymru sydd â'r nod o ddarparu o leiaf 80 o stiwdios fideogynadleda o safon uchel ar gyfer pob sefydliad addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru. Cytunwyd i barhau i'w gyllido yn 2007–08.

## Perfformiad yn erbyn tasgau yn y llythyr cylch gwaith

Gweithred	Canlyniad
Adolygiad cychwynnol o broses Adolygu Sefydliadol yr ASA yng Nghymru i helpu i ddatblygu trefniadau newydd ar gyfer y cylch nesaf.	Yn parhau. Penodwyd ymgynghorwyr i ymgymryd â'r adolygiad cychwynnol ar gyfer y Gweithgor Ansawdd newydd.
Ceisio strategaethau dysgu ac addysgu tair-blynedd newydd a darparu adborth. Bydd hyn yn cynnwys annog sefydliadau i nodi sut y gall Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU ar gyfer addysgu a chefnogi dysgu mewn addysg uwch gael ei hybu drwy eu strategaethau.	✓ Cyflawnwyd. Cyhoeddwyd arweiniad ym mis Ebrill 2007 a oedd yn cynnwys cyfeiriad penodol at Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU. Cyflwynwyd strategaethau gan bob sefydliad a gyllidir.
Gweithio'n agos â'r sector AU i gyfrannu at ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r adolygiad annibynnol o genhadaeth a phwrpas AB (Adolygiad Webb).	✓ Cyflawnwyd. Cyflwynodd CCAUC ei ymateb i Adolygiad Webb ym mis Ebrill 2007 (fe'i derbyniwyd gan y Cyngor yng nghyfarfod mis Mai). Bydd ymateb y Cynulliad yn rhan o'r Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth, y bu ymgynghoriad arni hyd 10 Ebrill 2008.
Gweithio gyda'r Academi AU, JISC ac eraill i ddatblygu ac ymgynghori ar strategaeth e-ddysgu ac adrodd ar y canlyniadau i'r Cynulliad erbyn mis Mawrth 2008.	✓ Cyflawnwyd. Cyflwynwyd y fersiwn terfynol o <i>Enhancing Learning and Teaching through Technology: A Strategy for Higher Education in Wales</i> i'r Cynulliad ym mis Mawrth ac fe'i cyhoeddwyd ar 7 Ebrill 2008.
Yng ngoleuni'r adolygiad a wnaed gan CCAUC yn 2006-07 o'r sgiliau lefel uwch sydd eu hangen yng Nghymru, gweithio'n agos â'r sector AU i gyfrannu at ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adolygiad Leitch o sgiliau, a wneir yn yr Hydref 2007.	✓ Cyflawnwyd. Cafodd yr ymateb cychwynnol i Leitch ei gyflwyno i'r Cynulliad ym mis Chwefror 2007. Cyflwynwyd cyngor ffurfiol ar 1 Hydref 2007. Mae ymateb y Cynulliad wedi'i gynnwys yn ei Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008.
Datblygu'r gwaith a wnaed yn ystod 2006-07 ar y rhaglen o weithgareddau gwella a luniwyd gan yr Academi AU, ac annog SAUau i weithio'n nes â'r Academi a defnyddio ei wasanaethau i wella ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr.	✓ Cyflawnwyd. Mae rhaglen o weithgareddau wedi cael ei gweithredu yng Nghymru. Mae cynnydd yn cael ei fonitro drwy gyfres o gyfarfodydd cyswllt â swyddogion yr Academi AU, gan gynnwys adroddiadau chwarterol ar gynnydd i'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu. Mae'r Academi wedi paratoi cynllun gweithredu mewn ymateb i'r gwerthusiad diweddar, sy'n cynnwys mwy o weithio agos â sefydliadau ar bob lefel.
Gweithredu'r gweithredoedd y cytunwyd arnynt yng ngoleuni ymateb y Cynulliad i gyngor CCAUC ar yr Asesiad Opsiynau o Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg a gyflwynwyd yn y flwyddyn ariannol 2006-07.	✓ Cyflawnwyd. Sefydlwyd fframwaith a chynllun datblygu cenedlaethol newydd ar gyfer addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Mae trafodaethau'n parhau ar ddatblygiadau pellach.



## Cyfrwng Cymraeg

Y gyfran o fyfyrwyr AU o Gymru yn SAUau a SABau Cymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg i godi o 5.3% yn 2000/01 i 7% yn 2010/11.

	2000/01			2001/02			2002/03		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
SAUau Cymru	3,473	63,681	5.5%	3,205	67,792	4.7%	3,412	71,301	4.8%
SAUau a SABau Cymru	3,495	65,800	5.3%	3,246	69,993	4.6%	3,412	72,436	4.7%
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	0.0% - 38.0%			0.0% - 27.7%			0.0% - 22.3%		
	2003/04			2004/05			2005/06		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
SAUau Cymru	3,523	72,315	4.9%	3,404	74,118	4.6%	3,625	73,539	4.9%
SAUau a SABau Cymru	3,540	73,415	4.8%	3,421	75,083	4.6%	3,647	74,751	4.9%
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	0.0% - 33.7%			0.0% - 41.3%			0.3% - 38.6%		
	2006/07								
	Nifer	Cyfanswm	%						
SAUau Cymru	3,778	74,415	5.1%						
SAUau a SABau Cymru	3,824	75,968	5.0%						
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	0.3% - 40.0%								

Cymerir bod myfyrwyr yn dod o Gymru os yw eu côd post cartref yng Nghymru.

Cynhwysir y moddau astudio amser-llawn a rhyngosod.

Cyfrifir myfyrwyr fel rhai sy'n dilyn rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt wedi'u cofnodi fel myfyrwyr sy'n cymryd modiwl sydd ar gael yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg neu os oes gan unrhyw fodiwlau y maent hwy'n eu cymryd ganran o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n fwy na sero. Cynhwysir cyrsiau ar yr iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg.

Cynhwysir pob modd astudio.

## Cymru fel cyrchfan dewis cyntaf

Y gyfran o'r holl **fyfyrwyr AU amser-llawn o Gymru** wedi'u cofrestru yn SAUau y DU sy'n **astudio yn SAUau yng Nghymru** i godi o **60.1% yn 2000/01** i **70% yn 2010/11**.

	2000/01			2001/02			2002/03		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
<b>SAUau Cymru</b>	31,772	67,742	46.9%	33,729	68,669	49.1%	34,917	71,506	48.8%
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	29.5% - 84.7%			30.8% - 85.8%			28.1% - 87.3%		

	2003/04			2004/05			2005/06		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
<b>SAUau Cymru</b>	35,816	73,695	48.6%	36,028	75,462	47.7%	36,053	76,520	47.1%
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	27.9% - 86.6%			27.5% - 85.0%			27.7% - 82.8%		

	2006/07		
	Nifer	Cyfanswm	%
<b>SAUau Cymru</b>	37,930	79,413	47.8%
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	27.7% - 83.7%		

Cymerir bod myfyrwyr yn dod o Gymru os yw eu côd post cartref yng Nghymru.

Cynhwysir y moddau astudio amser-llawn a rhyngosod.

Y gyfran o **fyfyrwyr AU amser-llawn o Gymru** wedi'u cofrestru yn SAUau y DU sy'n **astudio mewn SAUau yng Nghymru**:

	2000/01			2001/02			2002/03		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
<b>Cyfanswm SAUau y DU</b>	31,772	52,882	60.1%	33,729	54,442	62.0%	34,917	55,747	62.6%
	2003/04			2004/05			2005/06		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
<b>Cyfanswm SAUau y DU</b>	35,816	57,204	62.6%	36,028	57,165	63.0%	36,053	57,145	63.1%
	2006/07								
	Nifer	Cyfanswm	%						
<b>Cyfanswm SAUau y DU</b>	37,930	58,188	65.2%						

## Myfyrwyr tramor

Y newid canrannol yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau AU yn SAUau Cymru i fod **yn hafal â, neu'n fwy na**, y ffigur cyfartalog ar gyfer SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a De-Ddwyrain Lloegr) erbyn 2010/11.

	2000/01			2001/02			2002/03		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
SAUau Cymru	5,322	109,765	4.8%	5,878	114,387	5.1%	7,250	121,156	6.0%
SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r D-Ddn)	98,381	1,366,391	7.2%	108,496	1,430,036	7.6%	131,358	1,489,600	8.8%
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	0.5% - 9.5%			0.6% - 10.1%			1.2% - 11.2%		
	2003/04			2004/05			2005/06		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
SAUau Cymru	8,345	124,221	6.7%	9,644	129,231	7.5%	10,779	131,842	8.2%
SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r D-Ddn)	149,805	1,548,260	9.7%	154,168	1,576,133	9.8%	159,199	1,610,800	9.9%
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	0.2% - 11.6%			1.2% - 11.9%			1.6% - 12.3%		
	2006/07								
	Nifer	Cyfanswm	%						
SAUau Cymru	12,440	134,890	9.2%						
SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r D-Ddn)	170,962	1,621,542	10.5%						
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	1.6% - 17.0%								

Cymerir bod myfyrwyr yn fyfyrwyr tramor os nad ydynt yn byw yn yr UE, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw; mae hyn yn cynnwys myfyrwyr cyfnewid.

Cynhwysir pob modd astudio.

## Myfyrwyr tramor (parhad)

Y **newid canrannol** yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau AU yn SAUau Cymru i fod **yn hafal â, neu'n fwy na**, y ffigur cyfartalog ar gyfer SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a De-Ddwyrain Lloegr) erbyn 2010/11.

Newid blwyddyn ar flwyddyn

	2000/01 i 2001/02	2001/02 i 2002/03	2002/03 i 2003/04	2003/04 i 2004/05
SAUau Cymru	10.4%	23.3%	15.1%	15.6%
SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r D-Ddn)	10.3%	21.1%	14.0%	2.9%
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	-7.7% - 97.6%	2.8% - 93.9%	-94.2% - 64.1%	-5.2% - 875.0%

	2004/05 i 2005/06	2005/06 i 2006/07
SAUau Cymru	11.8%	15.4%
SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r D-Ddn)	3.3%	7.4%
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	-18.8% - 143.6%	-62.1% - 129.0%

Cymerir bod myfyrwyr yn fyfyrwyr tramor os nad ydynt yn byw yn yr UE, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw; mae hyn yn cynnwys myfyrwyr cyfnwid.

Cynhwysir pob modd astudio.

# Ymchwil ragorol

## Y cyd-destun

Mae ymchwil yn hanfodol ar gyfer creu gwybodaeth. Pan gymhwysir y wybodaeth hon, gall greu cyfoeth, a swyddi newydd o safon uchel. Mae'r cyllid a ddyrennir gan CCAUC yn galluogi sefydliadau addysg uwch (SAUau) i gynnal ymchwil ragorol o safon fyd-eang ac i barhau i ffurfio partneriaethau cydweithiol newydd i gryfhau eu nodau ymchwil unigol. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i'r gymuned fusnes weithio gyda'r sector AU Cymreig er lles cymdeithas ac economi Cymru.

## Ein nodau

- Sicrhau bod y sylfaen ymchwil yng Nghymru o safon sy'n cymharu'n ffafriol â gweddill y DU ac yn rhyngwladol.
- Sicrhau bod clystyrau ymchwil yng Nghymru yn ddigon mawr a bod ganddynt ystod ddisgyblaethol ddigon eang i fod yn effeithiol a chynaliadwy.
- Helpu'r sector AU yng Nghymru i sicrhau mwy o incwm ymchwil o ffynonellau heblaw am CCAUC, yn enwedig drwy grantiau Cyngor Ymchwil ac o fasnacheiddio ffrwyth eu hymchwil.

## Yr hyn a wnawn

- Darparwn y rhan fwyaf o'n cyllid ar gyfer ymchwil drwy'r ffrwd gyllido QR sy'n gwobrwyo ac yn atgyfnerthu ymchwil ragorol ar sail canlyniadau'r Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY).
- Darparwn gyllid i'r sefydliadau ei ddefnyddio'n hyblyg i gefnogi eu strategaethau ymchwil drwy ein Cronfa Buddsoddi mewn Ymchwil (RIF); cyllid ar gyfer hyfforddi myfyrwyr ymchwil ôl-radd; a chyllid i'w fuddsoddi yn yr isadeiledd ymchwil.
- Hefyd darparwn arian drwy gronfa buddsoddi mewn ymchwil wyddonol (SRIF) y DU, a ddefnyddir gan SAUau i fuddsoddi yn yr isadeiledd sydd ei angen – megis adeiladau, cyfleusterau a chyfarpar – i'w galluogi i wneud ymchwil o'r radd flaenaf.

## Cyflawniadau yn 2007–08

- Adolygwyd ein polisi ymchwil a'n dull cyllido ymchwil, gyda help ein Grŵp Ymgynghori ar Ymchwil. Roedd canlyniadau'r adolygiad yn cynnwys datganiad diwygiedig o'n hamcanion polisi ymchwil a'r fframwaith cyllido ategol cyffredinol.
- Ynghyd â chyrrff cyllido AU eraill y DU, cyhoeddwyd cynigion ar gyfer fframwaith asesu ymchwil y dyfodol – y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.
- Lanswyd Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru, menter ar y cyd gan Brifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe. Mae'r Sefydliad yn tynnu ynghyd yr ymchwil bresennol ym maes niwrowyddoniaeth wybyddol a bydd yn derbyn £5.17 miliwn o'r gronfa ailgyflunio a chydweithio. Drwy gyfuno adnoddau ac arbenigedd, a rhannu costau technoleg ddrudfawr, mae'r Sefydliad yn caniatáu i ymchwil yng Nghymru ym maes niwrowyddoniaeth wybyddol gystadlu â'r sefydliadau gorau yn y byd am gyllid ymchwil. Bydd hefyd yn cynnig cyfleoedd i gymryd mantais economaidd a masnachol o ddatblygiadau yn y maes hwn.
- Cyhoeddodd y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, CCAUC a Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai £5 miliwn ar gael ar gyfer canolfan ymchwil newydd i astudio dwyieithrwydd. Wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Bangor, nod y ganolfan newydd yw cynyddu dealltwriaeth o ddwyieithrwydd ar draws y byd.

## Perfformiad yn erbyn tasgau yn y llythyr Cylch Gwaith

Gweithred	Canlyniad
<p>Monitro'r lefel o incwm y mae'r sector wedi'i sicrhau gan y Cynghorau Ymchwil a chyllidwyr allanol eraill erbyn mis Mai 2007, a chymryd mesurau eraill fel y bo'n briodol i helpu i ysgogi ennill grantiau. Cyflwyno i'r Cynulliad erbyn diwedd Mawrth 2008 asesiad o'r camau pellach mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd yn y maes hwn.</p>	<p>✓ Cyflawnwyd gweithgaredd Chwarter 1. Rhoddwyd adroddiad ar ffynonellau'r incwm ymchwil a dderbyniwyd gan SAUau yng Nghymru yn y flwyddyn academaidd 2005/06 gerbron cyfarfod y Cyngor ym mis Mai 2007.</p> <p>✓ Cyflawnwyd gweithgaredd Chwarter 4. Cyflwynwyd yr asesiad i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2007, cyn y dyddiad a bennwyd, fel y byddai ar gael i gyfrannu at yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.</p>
<p>Parhau i chwarae rhan lawn yn nhrefniadau'r DU ar gyfer YAY 2008 drwy gydol y flwyddyn, ac mewn datblygu'r trefniadau ar gyfer yr YAY ar ei newydd wedd.</p>	<p>✓ Cyflawnwyd. Mae CCAUC wedi parhau i gyfrannu at reoli YAY 2008 drwy ei aelodaeth o'r Grŵp Llywio YAY. Ym mis Tachwedd 2007 cyhoeddwyd papur ymgynghori gennym ar y trefniadau newydd ar gyfer yr YAY, mewn partneriaeth â chyrrff cyllido AU eraill y DU.</p>

## Incwm ar gyfer ymchwil

**A** Y canran o gyllid y Cynghorau Ymchwil a ddenir gan SAUau Cymru i godi o 3.3% i 4.5%.

	2000/01	2001/02	2002/03	2003/04	2004/05
<b>Cyfanswm SAUau Cymru</b>	22,915,000	27,077,000	27,856,000	28,657,000	28,660,000
<b>Cyfanswm y DU</b>	695,065,000	805,172,000	819,804,000	832,981,000	926,145,000
Cymru fel % o'r DU	3.3%	3.4%	3.4%	3.4%	3.1%

	2005/06	2006/07
<b>Cyfanswm SAUau Cymru</b>	34,465,000	35,552,000
<b>Cyfanswm y DU</b>	1,073,233,000	1,151,951,000
Cymru fel % o'r DU	3.2%	3.1%

Ni chynhwyswyd data sy'n ymwneud â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn y ffigurau hyn.

**B** Cynnydd o 60% erbyn 2007/08 a 100% erbyn 2010/11 ar y ffigur man cychwyn o £55.6 miliwn yn yr incwm ymchwil o ffynonellau ar wahân i'r Cynghorau Ymchwil.

	2000/01	2001/02	2002/03	2003/04	2004/05
<b>Cyfanswm SAUau Cymru</b>	55,645,000	60,663,000	67,495,000	67,943,000	76,751,000
<b>Cynnydd fel % o'r ffigur man cychwyn</b>		9.0%	21.3%	22.1%	37.9%

	2005/06	2006/07
<b>Cyfanswm SAUau Cymru</b>	86,717,000	95,754,000
<b>Cynnydd fel % o'r ffigur man cychwyn</b>	55.8%	72.1%

Ni chynhwyswyd data sy'n ymwneud â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn y ffigurau hyn.



# Bod o fudd i'r economi a chymdeithas

## Y cyd-destun

Mae gweithgareddau trydedd genhadaeth mewn sefydliadau addysg uwch yn cymhwyso ac yn elwa ar wybodaeth, gan hybu datblygu cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yng Nghymru.

Mae'r cyllid a roddwn ar gyfer gweithgareddau trydedd genhadaeth yn helpu'r sector addysg uwch (AU) i ymateb i strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r DU mewn meysydd megis yr economi, gwyddoniaeth, sgiliau a rhyngweithio â busnes, ac i weithio gyda chyrff megis y cynghorau sgiliau sector.

Mae'r sector AU Cymreig yn cynhyrchu dros 30,000 o raddedigion y flwyddyn. Cyfrannodd dros £1.64 biliwn i economi Cymru yn 2004-05<sup>2</sup>. Mae sefydliadau addysg uwch (SAUau) yn gyflogwyr mawr yng Nghymru<sup>3</sup>, gan gyfrif am 1.4% o'r gweithlu. Hefyd, roedd y prifysgolion yn gyfrifol am enillion allforio o £114 miliwn o leiaf i Gymru yn 2004-05.

## Ein nodau

- Bodd o fudd i'r economi a chymdeithas drwy sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol.
- Helpu i gadw sgiliau graddedigion yn yr economi Cymreig ac i gynnal eu cyfraniad yn fwy eang.

## Yr hyn a wnawn

- Mae ein Cronfa Trydedd Genhadaeth yn gofyn i sefydliadau gynhyrchu strategaethau sy'n amlinellu sut y byddant o fudd i AU a'r economi ac sy'n cefnogi lles cymdeithasol a diwylliannol y gymuned leol a Chymru yn ei chyfanrwydd.
- Mae Cymru yn arwain y DU ym maes mentrau cyflogadwyedd, gyda chynlluniau unigryw fel GO Wales sydd wedi cryfhau cysylltiadau cyflogwyr â'r prifysgolion. Mae'r rhaglen hon a ariennir yn rhannol gan CGE (ESF) yn dod â graddedigion a busnesau at ei gilydd drwy, er enghraifft, cefnogi lleoliadau gwaith.

- Gweithiwn gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, a phartneriaid eraill yng Nghymru a'r DU i fwrw ymlaen ag agendâu sy'n effeithio ar SAUau megis sgiliau, cynaliadwyedd, graddau sylfaen a chyfleoedd mewn AU Ewropeaidd a rhyngwladol.
- Cyfrannwn at ddatblygiadau ym maes addysg ac ymchwil feddygol ar raddfa'r DU drwy fod yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Addysg Gofal Iechyd y DU (UKHEAC).

## Cyflawniadau yn 2007-08

- Cwblhawyd dyblu ein Cronfa Trydedd Genhadaeth (a gychwynwyd yn 2005/06) i adlewyrchu'r gydnabyddiaeth gynyddol sy'n cael ei rhoi i rôl SAUau o ran cefnogi datblygu economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.
- Buom yn gweithio gyda Phleidiwr Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (ADCDF/ESDGC) Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn gweithredu'r blaenoriaethau ar gyfer y sector AU yn y Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Yn erbyn y cefndir hwn, cyhoeddwyd dyraniad o £22,500 yr un i bob SAU i'w galluogi i wneud cynnydd yn erbyn dwy o weithredoedd yn ymwneud â'r sector AU sydd yn y cynllun gweithredu: ymgymryd â hunanddadsoddiad o ble mae ADCDF yn cael ei haddysgu o fewn y sefydliad a ble y gallai gael ei hymgorffori ymhellach; ac annog pob SAU i ddatblygu system rheolaeth amgylcheddol addas.
- Dangosodd Arolwg Rhyngweithio Busnes a Chymuned AU (HEBCIS) y DU fod ein prifysgolion yn parhau i gynhyrchu incwm sy'n hybu economi a chymunedau Cymru. Mae sefydliadau AU yng Nghymru yn parhau i wella ar draws amrediad o ddangosyddion yn ymwneud â chyfraniad economaidd a chymdeithasol drwy weithgareddau megis darparu gwasanaethau hyfforddi ac ymgynghori neu fasnacheiddio gwybodaeth newydd. Dengys y ffigurau diweddaraf i Gymru gynhyrchu 13.1% o'r holl fusnesau sy'n deillio o addysg uwch a 10.7% o'r holl fusnesau a gychwynwyd yn y DU gan raddedigion. Hefyd roedd Cymru'n cyfrif am 10.1% o'r incwm o ymchwil gydwethiol a oedd

yn cael ei hariannu gan arian cyhoeddus ac arian o fusnes, gan wneud yn well na 7 allan o 9 rhanbarth Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol Lloegr. Gwelwyd cynnydd o 77% yn yr incwm a gynhyrchir yn y maes hwn ers 2001/02 ac yn 2006/07 fe gyrhaeddodd dros £67.7 miliwn.

- Daeth Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Morgannwg, Amgueddfa Cymru, Techniquet a BBC Cymru at ei gilydd i wneud cynnig llwyddiannus i ddod yn unig Oleufa ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cymru fel rhan o gynllun ar gyfer y DU o dan nawdd Ymddiriedolaeth Wellcome a Chynghorau Ymchwil y DU. Maent hwy bellach yn arwain ymdrechion prifysgolion Cymru i weithio'n nes â'r cyhoedd. Bydd hyn yn helpu pobl Cymru i chwarae rhan lawer mwy rhyngweithiol yng ngwaith sefydliadau addysg uwch. Bydd y Goleufa ar gyfer Cymru yn annog prifysgolion i

wneud cyfraniadau ehangach i gymdeithas drwy gynnwys cymunedau'n fwy llawn yn eu gwaith, fel rhan o'r fenter fwyaf o'i bath i gael ei lansio yn y DU.

- Yn 2007, trefnodd GO Wales dros 600 o leoliadau i fyfyrwyr a graddedigion, y rhan fwyaf ohonynt yn y sector busnesau bach i ganolig. Hefyd bu'r rhaglen o gymorth i ddod o hyd i gyfnodau byr o brofiad gwaith i dros 500 o fyfyrwyr a graddedigion gyda chyrrff Cymreig, gan eu helpu i ddarganfod rhagor am yrfaedd sydd o ddiddordeb iddynt ac i feithrin cysylltiadau yn eu dewis faes. Defnyddiwyd ein cyfleuster Swyddi GO Wales gan 600 o gyrff ar draws Cymru i hysbysebu eu swyddi gwag i raddedigion.

#### Perfformiad yn erbyn tasgau yn y llythyr Cylch Gwaith

Gweithred	Canlyniad
Gweithio'n agos gyda Phleidiwr <i>Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang</i> y Cynulliad a'r sector AU i fwrw ymlaen â'r gofynion perthnasol yn y Cynllun Gweithredu ADCDF. Cyflwyno adroddiad ar gynnydd i'r Cynulliad ar gamau a gymerwyd a gweithredoedd arfaethedig erbyn diwedd Mawrth 2008.	✓ Cyflawnwyd. Cyflwynwyd adroddiad manwl ar gynnydd ar 27 Mawrth 2008.

## Cwmnïau deilliedig

Y nifer o gwmnïau proffidiol sy'n deillio o SAUau yng Nghymru i godi o 21 i 42.

	2000/01	2001/02	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Cyfanswm SAUau Cymru	25	31	14 *	17	15	26
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	0/7	0/7	0/4	0/5	0/5	0/6

Mae'r data yn dangos y cwmnïau deilliedig newydd a ffurfiwyd mewn gwirionedd ac y rhagwelwyd eu ffurfio bob blwyddyn academiaidd.

\* Credwn fod ymwybyddiaeth y sector o ddyfodiad Deddf Ariannol 2003 yn rhannol gyfrifol am y gostyngiad yn 02/03, gan iddi dynnu'r cymhelliad i sefydliadau academiaidd fynd ati i sefydlu cwmnïau deilliedig. (Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn ymwybodol o hyn ac mae'n ystyried y sefyllfa.)

<sup>2</sup> *Building an Opportunity Society and a Knowledge Economy* (Addysg Uwch Cymru)

<sup>3</sup> Yr Athro Stephen Hill (2003), *The Economic Impact of Higher Education in Wales*

# Hyfforddiant cychwynnol athrawon

## Y cyd-destun

Mae cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) a gynhelir gan sefydliadau addysg uwch (SAUau) yng Nghymru yn recriwtio yn ôl targedau derbyn a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Pwrpas y targedau hyn yw helpu i gwrdd â'r angen am athrawon hyfforddedig yng Nghymru drwy gynhyrchu digon o athrawon newydd gymhwyso bob blwyddyn.

Daeth yr adolygiad o HCA yng Nghymru, a gomisiynwyd gan y Cynulliad ac y cyhoeddwyd yr adroddiad arno ym mis Ionawr 2006, i'r casgliad bod gormod o athrawon yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer ysgolion cynradd. Argymhellodd y dylai'r sector HCA yng Nghymru – prifysgolion a cholegau sy'n cynnig hyfforddiant i athrawon – leihau nifer yr athrawon a hyfforddant. Gan weithio gyda'r sector a Llywodraeth y Cynulliad, rydym wedi ystyried goblygiadau'r newidiadau, a fydd yn cynnwys ailgyflunio'r sector HCA yng Nghymru.

Mae SAUau'n parhau i ddenu niferoedd mawr o ddarpar athrawon cynradd, gan recriwtio 982 yn erbyn targed o 950 yn 2007/08.

Recriwtiodd SAUau 1,089 o hyfforddeion i gyrsiau uwchradd, yn erbyn targed o 1,240. Roedd hyn yn cynnwys 784 a recriwtiwyd i feysydd pwnc blaenoriaethol, lle y mae mwy o brinder athrawon, yn erbyn targed o 920.

## Ein nodau

- Helpu sefydliadau addysg uwch Cymru i gynhyrchu athrawon newydd gymhwyso o'r safon uchaf.

## Yr hyn a wnawn

- Gweithiwn gyda:
  - \* y sector addysg uwch (AU) yng Nghymru i gyflawni targedau recriwtio a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ar y lefelau cynradd ac uwchradd; ac
  - \* Estyn – swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru – i sicrhau ansawdd a safonau darpariaeth HCA.
- Mae ein cyllid ar gyfer strategaethau HCA yn annog sefydliadau i gymryd ymagwedd fwy strategol at HCA, gan gyfuno blaenoriaethau perthnasol CCAUC, Estyn a Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys honno ar gyfer darpariaeth HCA cyfrwng Cymraeg. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys cefnogi pynciau uwchradd blaenoriaethol, hyfforddiant ar gyfer athrawon cyfrwng Cymraeg, partneriaethau gydag ysgolion, cynnal a gwella ansawdd, a datblygu'r cwricwlwm.
- Rydym ni'n helpu i reoli gor-recriwtio i gyrsiau cynradd yn y sefydliadau.
- Rydym ni'n monitro'n ofalus recriwtio i bynciau uwchradd, yn enwedig mewn meysydd pwnc blaenoriaethol y gall fod yn anos recriwtio iddynt. Rydym ni'n rhoi sylw arbennig i feysydd lle y mae prinder athrawon, megis gwyddoniaeth neu gyrsiau cyfrwng Cymraeg.

## Cyflawniadau yn 2007–08

- Buom yn gweithio gyda'r sefydliadau ar ailgyflunio'r sector HCA mewn ymateb i Adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

### Perfformiad yn erbyn tasgau yn y llythyr Cylch Gwaith

Gweithred	Canlyniad
Gweithio gyda'r sector HCA i weithredu cynlluniau ar gyfer ailgyflunio HCA, yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gyda'r Cynulliad.	✓ Cyflawnwyd. Ar ôl derbyn cyngor pellach gan y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2007, gofynnwyd am gynlluniau mwy manwl gan y sefydliadau a buom yn trafod â hwy i egluro a phrofi tybiaethau. Adroddwyd yn ôl i'r Cynulliad, fel yr oedd wedi gofyn, ar ddechrau mis Ebrill.

## Y cyd-destun

Mae ailgyflunio a chydweithio yn y sector addysg uwch (AU) yng Nghymru yn parhau'n flaenoriaeth allweddol o dan strategaeth *Ymgeisio'n Uwch* Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Wedi cyflwyno'r trefniadau ar gyfer ffioedd dysgu hyblyg, rydym yn gweithio'n agos â'r sector i reoli goblygiadau ariannol cyllid myfyrwyr sy'n seiliedig ar alw.

Mae'r sector AU yng Nghymru yn ystyried ffyrdd priodol o'i werthu ei hun mewn marchnad gynyddol gystadleuol am addysg uwch. Yn ogystal ag annog myfyrwyr o wledydd tramor i ystyried Cymru fel cyrchfan ddeniadol, rhaid i SAUau wynebu'r her o hybu manteision cyfnewidiadau rhyngwladol i fyfyrwyr cartref.

## Ein nodau

- Edrych ar ffyrdd eraill o gwrdd â gofyniad y Cynulliad bod yn rhaid datblygu ymagwedd fwy strategol tuag at ddefnyddio cyllid craidd a chyllid a glustnodwyd ar gyfer yr agenda *Ymgeisio'n Uwch*.
- Parhau i weithio gyda'r sefydliadau i ddarganfod sut orau i weithredu'r weledigaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad ar ddarparu addysg uwch wedi 1992 yn ne-ddwyrain Cymru.
- Ystyried ymhellach sut i ddatblygu arweinyddiaeth a llywodraethu yn y sector.

## Yr hyn a wnawn

- Rydym yn gweinyddu Cronfa Ailgyflunio a Chydweithio Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cefnogi cynigion cadarn ar gyfer cyfuno SAUau neu gydweithio rhyngddynt mewn clystyrau neu rwydweithiau rhagoriaeth ym meysydd addysgu, ymchwil a gweithgaredd trydedd genhadaeth.
- Mae gennym Gronfa Datblygu Strategol i gefnogi cydweithio a hefyd gynlluniau strategol ar raddfa'r DU nad ydynt yn dod o fewn telerau'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio.
- Rydym yn gyfrifol am gymeradwyo cynlluniau ffioedd dysgu'r SAUau, wedi cael cadarnhad bod

modd i sefydliadau gyflwyno ffioedd hyblyg yn 2007/08. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu sut y bydd y sefydliadau'n clustnodi 30% o'u hincwm ychwanegol o ffioedd hyblyg at bwrpas ehangu mynediad (er enghraifft, drwy gynnig bwrsariau ac ysgoloriaethau) a hyrwyddo addysg uwch.

- Gofynnwn i SAUau adrodd ar gynnydd yn erbyn y targedau yn *Ymgeisio'n Uwch* drwy eu cynlluniau strategol eu hunain. Byddwn ni'n monitro eu cynnydd, yn darparu adborth ac yn gweithio gyda hwy i wella agweddau penodol ar berfformiad.
- Rydym yn adolygu ac yn adrodd ar ragolygon ariannol pum mlynedd y sefydliadau a'u datganiadau ariannol archwiliedig blynyddol.
- Bydd ein Cyngor yn ymweld â phob SAU yng Nghymru o leiaf unwaith bob tair blynedd i ddod i adnabod sefydliadau unigol yn well, i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth CCAUC o'r sefydliadau, ac i wella ein dulliau o roi adborth iddynt.
- Adolygwn strategaethau ystad, lle y mae sefydliadau'n cymryd i ystyriaeth anghenion eu hystadau unigol, gan gynnwys gofynion llety myfyrwyr a materion ariannol a chynaliadwyedd amgylcheddol.
- Rhoddwn gyllid cyfalaf i sefydliadau i gefnogi buddsoddi mewn adeiladau a chyfarpar ar gyfer addysgu ac ymchwil.
- Rydym ni'n helpu sefydliadau i lynu at ganllawiau a deddfwriaeth arall, er enghraifft, ym meysydd cydraddoldeb a chaffael.
- Rydym ni'n parhau i gefnogi gwaith llywodraethu a rheoli'r Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch (LFHE) a Phwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC), ar raddfa DU a Chymreig. Mae Prif Weithredwr CCAUC yn cadeirio grŵp sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr uwch o Gadeiryddion Addysg Uwch Cymru, Addysg Uwch Cymru, y Sefydliad Arweinyddiaeth yng Nghymru, ac eraill sy'n gysylltiedig â datblygu llywodraethu a rheolaeth.
- Gweithiwn gyda'r Uned Her Cydraddoldeb (ECU) ar gyfer y DU i gadw llygad ar sut y mae SAUau yn cwrdd â'u rhwymedigaethau statudol o dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Mae'r Uned yn

arwain prosiectau a gweithgareddau ymchwil yn y DU ac yn trefnu cyfarfodydd o Grŵp Cyswllt Cymru i rannu gwybodaeth ac arfer gorau. Bydd CCAUC ei hun yn monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth am SAUau yng Nghymru ac yn rhoi cyngor ac arweiniad yn y maes hwn.

## Cyflawniadau yn 2007–08

- Cefnogwyd buddsoddiad o £7.5 miliwn mewn tri SAU yn ne-orllewin Cymru ar gyfer partneriaeth arloesol i integreiddio amryw wasanaethau i fyfyrwyr a staff. Bydd cyllid ar gyfer Prifysgol Abertawe, Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Choleg y Drindod Caerfyrddin o'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio o gymorth i: integreiddio amrywiaeth o wasanaethau a swyddogaethau gweinyddol, gan gynnwys cofnodion myfyrwyr a systemau mewnrwyd; creu gwasanaeth llyfrgell a gyrfaoedd 'rith' ar gyfer de-orllewin Cymru; a datblygu staff. Bydd hefyd yn cynnig ymagwedd gydgyssylltiedig at gynaliadwyedd amgylcheddol a rheoli ystadau.
- Darparwyd buddsoddiad o £5.2 miliwn o'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio i sefydlu Sefydliad Ymchwil Carbon Isel, menter ar y cyd rhwng Prifysgolion Caerdydd, Bangor, Morgannwg ac Abertawe. Bydd y Sefydliad yn dwyn ynghyd ac yn adeiladu ar arbenigedd y partner brifysgolion er mwyn sefydlu Cymru fel canolfan a gydnabyddir yn rhyngwladol am ei hymchwil i egni carbon isel. Bydd y Sefydliad hefyd yn cyfrannu at ddatblygu economi carbon isel yng Nghymru.
- Rhoddwyd £5.3 miliwn i Brifysgol Glyndŵr, Wrecsam – Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru ynghynt – i gryfhau ei safle fel sefydliad addysg uwch Cymru yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Bydd y buddsoddiad, o'n Cronfa Datblygu Strategol, yn cael ei wneud dros gyfnod o dair blynedd ac mae ef wedi helpu'r Brifysgol i ennill ei bwerau dyfarnu graddau ei hun ac i sicrhau ei statws fel prifysgol. Mae hefyd wedi helpu i gwrdd â'r ymrwymiad yn *Cymru'n Un* i gefnogi cais yr Athrofa i ddod yn brifysgol lawn.
- Buom yn ymgynghori â'r sector ar gynigion i ddiwygio'r trefniadau ar gyfer dyrannu cyllid cyfalaf o 2008–09. Y nod yw annog sefydliadau i edrych ar fuddsoddi cyfalaf fel proses dymor-hir. Yna buom yn gweithio â staff o'r sector i ddatblygu fframwaith ar gyfer y wybodaeth y bydd ei hangen o dan y drefn newydd ac i ddewis ystod ymarferol o ddangosyddion.
- Cyhoeddwyd dyraniad cyllid cyfalaf atodol o £5.5 miliwn yn 2008. Rhoddir hyn tuag at y diffyg mewn cyllid cyfalaf ar gyfer dysgu ac addysgu yn SAUau Cymru sydd wedi cael ei ddarganfod, ac i gefnogi buddsoddi yn yr isadeiledd er mwyn helpu'r sector i ymateb yn effeithiol i Bolisi Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru Llywodraeth y Cynulliad.
- Cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus yng Nghaerdydd ym mis Chwefror ar ryngwladoli.
- O dan nawdd Grŵp Llywio Sefydlu Llywodraethu Da Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol, ac mewn partneriaeth â chyrff cyllido eraill y DU, rhoddwyd cymorth i'r Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch i gynhyrchu deunydd cyfarwyddo hygyrch i lywodraethwyr ar agweddau allweddol ar eu cyfrifoldebau, gan gynnwys cyllid, archwilio, adnoddau dynol ac ystadau. Hefyd cyhoeddodd Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol Lawlyfr i Aelodau Pwyllgorau Archwilio mewn Sefydliadau Addysg Uwch.
- Fel rhan o gyfraniad AU i agenda 'Gwneud y Cysylltiadau' a 'Gwerth Am Arian' Llywodraeth y Cynulliad, rhoddwyd cymorth i'r sefydliadau i wneud enillion effeithlonrwydd o £10.3 miliwn (2006/07).
- Buom yn gweithio gyda'r sector a chyrff cyllido AU eraill y DU i helpu sefydliadau i gyrraedd safonau newydd wrth godi adeiladau newydd ac i wneud gwelliannau pellach o ran cynaliadwyedd, yn unol â dyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Comisiynodd CCAUC a CCAULI brosiect gwerthuso newydd i ystyried y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr anabl mewn AU. Mae'r ymchwil yn dwyn ynghyd y newidiadau a fu yn y sector AU yng Nghymru a Lloegr yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr anabl.
- Prosiect peilot wedi'i gyllido gan CCAUC yw Cynllun Mentora Prifysgolion y Menywod (WUMS). Ei nod yw sefydlu partneriaethau mentora i fenywod sy'n gweithio yn SAUau Cymru. Bydd yn cael ei gynnal yn y 12 prifysgol yng Nghymru yn ystod 2008.

## Perfformiad yn erbyn tasgau yn y llythyr Cylch Gwaith

Gweithred	Canlyniad
<p>Yng ngoleuni <i>Ymgeisio'n Uwch</i>, yr egwyddor o gyllido ar sail rhywbeth am rywbeth, a chynnwys ehangach polisi Llywodraeth y Cynulliad, gweithio ochr yn ochr â'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn ôl y gofyn i baratoi tystiolaeth a helpu i benderfynu ar y blaenoriaethau ym maes addysg uwch ar gyfer yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant nesaf.</p>	<p>✓ Cyflawnwyd. Cyflwynwyd tystiolaeth i'r Cynulliad a chynhaliwyd amryfal drafodaethau yn ôl y gofyn.</p>
<p>Rhoi cyngor i'r Gweinidog erbyn diwedd Rhagfyr 2007 ar sut mae'r sector yn datblygu arweinyddiaeth a llywodraethu ar hyn o bryd (gan gynnwys effaith sefydlu a datblygu llywodraethwyr); ar ffyrdd o wella gallu CCAUC i gynghori'r Cynulliad ar risgiau; ac ar ddewisiadau pellach ar gyfer gweithredu.</p>	<p>✓ Cyflawnwyd. Cyflwynwyd adroddiad i'r Gweinidog ym mis Rhagfyr 2007.</p>
<p>Gweithio gyda swyddogion y Cynulliad i ddarganfod y meysydd mwyaf addawol ar gyfer lleihau beichiau ac ar y cwestiwn o sefydlu concordat rhwng asiantaethau priodol yng Nghymru.</p>	<p>✓ Cyflawnwyd. Cafodd cynigion sy'n nodi meysydd lle y gallai CCAUC leihau beichiau drwy weithredu unochrog, a chyfleoedd eraill ar gyfer lleihau beichiau sy'n gofyn i'r Cynulliad gymryd yr awenau, eu hanfon i Bennaeth yr Adran ym mis Mawrth 2008.</p>
<p>Parhau gyda'r gwaith o gynhyrchu'r dystiolaeth sydd ei hangen i alluogi'r Cynulliad i ymateb i'r galwadau a fydd yn codi o weithredu'r fframwaith cyflog newydd ar gyfer y sector, a fydd yn cael ei gwblhau yn yr haf 2007.</p>	<p>✓ Cyflawnwyd. Derbyniwyd adroddiad o brosiect a gyllidwyd drwy'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio i gefnogi cyflwyno'r fframwaith cyflog newydd.</p>



## Lleihau gorbenion

**Y gost weinyddu ganolrif** am bob myfyriwr CALL ar gyfer SAUau Cymru i ostwng o lefel y 45ain canradd ar gyfer costau gweinyddu am bob myfyriwr CALL yn SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain) i'r 40fed canradd erbyn 2007/08 a'r 25ain canradd erbyn 2010/11.

	2000/01	2001/02	2002/03	2003/04
<b>Canolrif SAUau Cymru (£)</b>	2,476	2,642	2,855	3,157
Canran o SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain) sydd â chostau gweinyddu am bob myfyriwr CALL sy'n is na'r canolrif Cymreig	45%	44%	46%	51%
Canolrif SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain) (£)	2,659	2,802	2,888	3,140
Isaf/uchaf (SAUau Cymru) (£):	1,483 - 5,419	1,603 - 5,801	1,760 - 6,663	1,635 - 7,354

	2004/05	2005/06
<b>Canolrif SAUau Cymru (£)</b>	3,264	3,390
Canran o SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain) sydd â chostau gweinyddu am bob myfyriwr CALL sy'n is na'r canolrif Cymreig	46%	47%
Canolrif SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain) (£)	3,358	3,461
Isaf/uchaf (SAUau Cymru) (£):	1,876 - 5,665	1,948 - 5,976

Mae costau gweinyddu yn cynnwys costau adrannau academiaidd (heb gynnwys costau staff academiaidd), gwariant ar wasanaethau academiaidd a gwariant ar weinyddu a gwasanaethau canolog (nid ydynt yn cynnwys gwariant ar adeiladau). Mae'r cyfrifiad CALL yn cynnwys pob myfyriwr AU ac AB ar gyfer pob blwyddyn a phob myfyriwr nad yw ei gwrs yn arwain at gredyd hyd at 2003/04 (ac eithrio rhai myfyrwyr Cymraeg i Oedolion nad oes data CALL ar gael ar eu cyfer rhwng 2000/01 a 2004/05).

Cymerir y data o ystadegau rheoli addysg uwch ar lefel y sefydliad a gyhoeddir ar y system HEIDI, ac sy'n seiliedig ar ddata'r AYAU.

Nid yw'r data ar gyfer Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru wedi cael eu cyfuno yn y tabl hwn ar gyfer 2000/01 i 2003/04. Nid yw data ar gyfer Prifysgol Morgannwg a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi cael eu cyfuno yn y tabl hwn ar gyfer 2000/01 i 2005/06.



# Gwneud iddi weithio – CCAUC

## Y cyd-destun

Mae angen i CCAUC ddarparu amgylchedd lle y gall ein staff gyrraedd eu potensial llawn er mwyn i ni allu cyflawni ein hamcanion polisi a darparu gwasanaeth effeithiol.

Fel corff cyfryngol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector addysg uwch (AU) yng Nghymru, mae CCAUC yn gweithredu o fewn amgylchedd y mae yn aml yn y sefyllfa o ddylanwadu arni yn hytrach na'i rheoli.

Mae AU yng Nghymru yn rhan o farchnad ehangach ar gyfer myfyrwyr a staff, yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae datblygiadau mewn mannau eraill yn effeithio ar gystadleurwydd y sector yng Nghymru.

## Atebolrwydd CCAUC

Diffinnir y berthynas rhwng CCAUC a Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y defnydd o'r cyllid cyhoeddus a roddir i CCAUC.

Bydd y Gweinidog Addysg yn cynnal cyfarfod adolygu blynyddol gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, a bydd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd adolygu perfformiad chwarterol gyda'r Prif Weithredwr a staff CCAUC.

Archwilir ein cofnodion a'n cyfrifon gan swyddfa annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru).

## Cyngor ac adran weithredol CCAUC

Yn ystod 2007-08, roedd gan y Cyngor ddeuddeg aelod, gan gynnwys y Cadeirydd. Roedd hyn yn cynnwys un aelod newydd a ymunodd ar 1 Ebrill 2007.

Gan fod cyfnod terfynol y Cadeirydd yn y swydd yn dod i ben ym mis Chwefror 2008, cafodd ei estyn am ddau fis arall gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a recriwtiwyd Cadeirydd newydd i ddechrau ar 5 Mai 2008.

Yn ystod 2007-2008, cyfarfu'r Cyngor wyth gwaith. Bydd aseswr o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae gan Brif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr a Chyngor Cyllido'r Alban, ynghyd â'r Is-ysgrifennydd sy'n gyfrifol am addysg uwch yn Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon, statws sylwedydd ar y Cyngor.

- Roedd y nifer cyfartalog o swyddi cyfwerth ag amser-llawn yn 2007-08 yn 52. Roedd hyn yn cynnwys swyddi amser-llawn, swyddi rhan-amser, rhannu swyddi, penodiadau cyfnod penodol, staff ar secondiadau tymor hir a thymor byr, a myfyrwyr yn gweithio ar leoliadau o fewn CCAUC.

## Ein nodau

- Recriwtio a datblygu staff sy'n gweithio'n effeithiol ac sy'n amlygu gwerthoedd ac egwyddorion y corff.
- Asesu'n barhaus a nodi meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau drwy gyfrwng ymarferion megis asesiadau'r Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Ansawdd (EFQM), Buddsoddwyr mewn Pobl, arolygon rhanddeiliaid, arolygon staff, ac adolygiadau perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gweithredu fel y bo angen, gan gynnwys ym meysydd arweinyddiaeth a rheolaeth, er mwyn gallu codi i sialensiau'r dyfodol.
- Er mwyn cyflawni ein cenhadaeth, rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaeth effeithiol ar gyfer ein rhanddeiliaid a'n partneriaid, a bod cyfathrebiadau clir, hygyrch a strategol yn cynnal ein gweithrediadau mewnol a'n perthnasoedd â sector addysg uwch Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid allanol eraill.
- Wrth fwrw ymlaen â strategaeth Llywodraeth y Cynulliad, Ymgeisio'n Uwch, byddwn yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i gynnal hyder y sector a'n gallu ni i hwyluso newid.
- Gweithio'n effeithiol ac effeithlon, a bod yn gyflogwr model, a chadw'r safon Buddsoddwyr mewn Pobl. Rydym wedi ymrwymo i adolygu'n gyson ein staffio a'n strwythur cefnogi, a hefyd ein systemau ariannol a systemau eraill, i sicrhau eu bod yn parhau i ddiogelu arian cyhoeddus a rhoi gwerth am arian.

- Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

## Yr hyn a wnawn

- Cynhyrchwn, mewn un ddogfen, strategaeth gorfforaethol (sy'n nodi ein canlyniadau strategol tymor-hir); cynllun corfforaethol am y tair blynedd ariannol nesaf; a chynllun gweithredol manwl am y gyntaf o'r tair blynedd hyn. Mae'r cynllun gweithredol yn cynnwys targedau a gweithredoedd a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei Llythyr Cylch Gwaith blynyddol i CCAUC. Mae cynnydd yn erbyn y targedau yn y cynlluniau yn cael ei adolygu gan ein Cyngor ni ac mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth y Cynulliad.
- Rydym yn cynnal cofrestr risg corfforaethol lefel uchel sy'n nodi risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion ein cynllun corfforaethol ac â'r amgylchedd ehangach rydym yn gweithredu oddi mewn iddo, a'r mesurau ar gyfer rheoli'r risgiau hyn.
- Rydym yn cynnal deialog â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch yr angen am lefel briodol o gyllid i'r sector AU yng Nghymru.
- Mae gennym Gynllun Iaith Gymraeg, wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a Strategaeth Prif-ffrydio'r Iaith Gymraeg a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hon yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu cynnwys ystyriaeth o'r iaith Gymraeg yn ein prosesau llunio polisi a darparu gwasanaethau.
- Rydym yn cynnwys ac yn ymgynghori â staff a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb wrth ddatblygu ein cynlluniau cydraddoldeb a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig. Mae'r cynlluniau'n cynnwys gweithredoedd sy'n ymdrin â CCAUC fel cyflogwr a pholisïau'n ymwneud â'r sector AU yng Nghymru.
- Er mwyn monitro effeithiolrwydd y broses gwneud cais a pholisïau cyflogaeth cysylltiedig, a darganfod a yw pob ymgeisydd ac aelod staff yn cael ei drin yn gyfartal, rydym wedi bod a byddwn yn monitro rhyw, oedran, anabledd, statws priodasol, tarddiad hiliol neu ethnig, gogwydd rhywiol, crefydd neu greddo ein staff ac ymgeiswyr. Fel corff bach, nid oeddem yn gallu cyhoeddi ein data ar gyfer 2007-08 heb i unigolion gael eu hadnabod. Mae ein gwefan yn cynnwys data monitro cydraddoldeb ar y sector AU yng Nghymru ac ar CCAUC fel cyflogwr.

## Mynediad i wybodaeth

### Cynllun Cyhoeddi

- Mae Cynllun Cyhoeddi'r Cyngor, a luniwyd o dan Adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, yn nodi'r wybodaeth yr ydym ni'n ei chyhoeddi, neu'n bwriadu ei chyhoeddi, yn rheolaidd; sut y caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi; ac a yw'r wybodaeth ar gael am ddim neu am dâl. Mae'r Cynllun Cyhoeddi ar gael ar ein gwefan, [www.hefcw.ac.uk](http://www.hefcw.ac.uk), neu ar ffurf dogfen bapur drwy wneud cais.

### Cod Ymarfer a chofrestr o fuddiannau

- Mae gofyn i bob aelod o'r staff a'r Cyngor gydymffurfio â Chod Ymarfer a chofrestru buddiannau ariannol a gwleidyddol a buddiannau eraill sy'n berthnasol i fusnes CCAUC. Mae'r gofrestr o fuddiannau ar gael ar ein gwefan, [www.hefcw.ac.uk](http://www.hefcw.ac.uk), neu gellir cael copi drwy wneud cais i Glerc y Cyngor.

### Cwynion

- Mae gennym Drefn Cwynion yn Erbyn CCAUC a gall Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ymchwilio i CCAUC. Cawsom un cais i ystyried cwyn o dan y Drefn Gwyno yn ystod y flwyddyn.

## Cyflawniadau yn 2007-08

- Buom yn edrych ar ein strwythur trefniadaethol i'w wneud yn fwy addas i'n hanghenion, ac i sicrhau bod CCAUC yn gweithredu'n fwy strategol a hyblyg ac yn gallu gwneud y defnydd gorau o'i staff. Ein nodau oedd creu strwythur a allai ymateb yn dda i'r agenda addysg uwch datblygol yng Nghymru ac y tu hwnt, cryfhau gallu mewn rhai meysydd, galluogi CCAUC i weithio'n fwy strategol â sefydliadau addysg uwch (SAUau), ailgydbwyso'r uwch reolwyr i ddarparu gwell cefnogaeth i'r Prif Weithredwr, integreiddio swyddogaethau, a gwneud timau'n fwy hyblyg.
- Er mwyn asesu pa mor effeithiol yw ein gwasanaeth, a pha mor dda y mae ein perthnasoedd yn gweithio, comisiynwyd, yn hydref 2007, ein harolwg cyntaf erioed o randdeiliaid a phartneriaid. Casglodd yr arolwg annibynnol safbwyntiau am y gwasanaethau a ddarparwn ac am ein perthnasoedd â chyrff eraill, ac roedd yn cynnwys adborth am:
  - gwybodaeth, ymwybyddiaeth a safbwyntiau pobl am CCAUC;
  - canfyddiadau am rôl CCAUC;
  - canfyddiadau am ansawdd y gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir gan CCAUC;

- cysylltiadau ac ymwneud â staff CCAUC;
- effeithiolrwydd dulliau cyfathrebu CCAUC;
- canfyddiadau am effeithiolrwydd y perthnasoedd rhwng CCAUC a'n partneriaid a rhanddeiliaid allweddol; a
- meysydd blaenoriaethol lle mae angen gwneud gwelliannau.

Yn yr arolwg, derbyniasom sgôr cymeradwyaeth o 74%, a oedd yn debyg i'r canlyniadau ar gyfer arolygon tebyg yn Lloegr a'r Alban.

- Cynhyrchwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Rhyw cyntaf. Amlinellodd y Cynllun sut y dylem ddatblygu ein dyletswydd cyflogaeth yn y maes hwn a sut y byddem yn cefnogi SAUau i'w galluogi i ddarparu a hybu cydraddoldeb rhyw yn well.
- Yn nes ymlaen yn y flwyddyn, gwahoddwyd sylwadau ar Gynllun Cydraddoldeb drafft newydd. Yma, daethpwyd â'n cynlluniau cydraddoldeb a chynlluniau gweithredu presennol ar gyfer anabledd, rhyw a hil at ei gilydd. Roedd y Cynllun hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ein gwaith ym meysydd oedran, crefydd a chredo, gogwydd rhywiol, a chydraddoldeb yn fwy cyffredinol, gan amlygu ein bwriad i fynd y tu hwnt i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn unig. Drwy ddwyn ynghyd pob agwedd ar gydraddoldeb yn y modd hwn, ein gobaith yw lleihau biwrocratiaeth, annog gweithredu effeithlon – yn fewnol ac o fewn y sector – ac, yn bwysicaf oll, sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif-frydio'n briodol i'n gweithgareddau craidd.
- Cynhyrchwyd yr ail adroddiad cydymffurfiad blynyddol ar ein Cynllun Iaith Gymraeg. At ei gilydd, rydym wedi gwneud cynnydd cyson yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan yr aelodau staff a gymerodd ran mewn sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg. Gwnaed cynnydd hefyd gyda'n strategaeth sgiliau ieithyddol. Rydym yn arbennig o fodlon ar nifer y staff sydd wedi

dechrau dysgu Cymraeg neu wedi gwella eu sgiliau Cymraeg: roedd 7 aelod staff yn rhugl neu'n meddu ar sgiliau uwch, ac roedd gan 18 aelod staff sgiliau ar y lefel sylfaenol neu ganolraddol.

- Adroddodd ACAS ar gasgliadau adolygiad o gyflog, graddau a gwerthuso swyddi yng nghyd-destun cyflog cyfartal. Dangosodd yr adolygiad nad oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu o fewn y system gyflog a bod y canlyniadau a gafwyd o gymhwyso offeryn Gwerthuso Swydd CCAUC yn dangos nad oedd unrhyw dystiolaeth o ogwydd o ran rhyw.
- Cynhyrchwyd Strategaeth a Pholisi Cyfathrebu newydd sbon. Mae'r Polisi yn nodi ein nodau ac amcanion mewn perthynas â'n hamryfal weithgareddau cyfathrebu mewnol ac allanol, ac yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau staff CCAUC ac aelodau'r Cyngor wrth gyfrannu at reolaeth effeithiol y gweithgareddau hyn. Mae'r Strategaeth yn nodi ein blaenoriaethau a'r camau a gymerwn i gwrdd â nodau ac amcanion y Polisi.
- Gweithredwyd fframwaith rheoli prosiectau newydd. Bydd hyn yn helpu staff i redeg a chyflawni gwahanol fathau o brosiectau, o rai syml iawn i rai cymhleth, a chafodd ei greu i wella eglurder ac effeithiolrwydd y broses rheoli prosiectau.
- Derbyniwyd ardystiad ISO27001 yn sgil adolygiad annibynnol o'n system Rheoli Diogelwch Gwybodaeth.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod wedi penodi cadeirydd newydd i CCAUC, sef Roger Thomas OBE, cyn Gadeirydd Prifysgol Morgannwg a Chadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC). Talodd Gweinidog Addysg y Cynulliad deyrnged i'r Cadeirydd sy'n gadael, yr Athro Syr Roger Williams, am ei wasanaeth i AU yn ystod y 13 blynedd ddiwethaf, a'i gyfraniad at arwain y sector AU yng Nghymru drwy gyfnod o newid sylweddol "gydag awdurdod, egni a medr diplomyddol o'r radd flaenaf".

Perfformiad yn erbyn tasgau yn y llythyr Cylch Gwaith	
Gweithred	Canlyniad
Gweithio gyda swyddogion y Cynulliad yn ystod chwarter cyntaf 2007-08 i ddatblygu ymagwedd fwy cydlynol a strategol at weithgareddau cyfathrebu.	✓ Yn parhau. Cymeradwywyd y Strategaeth a Pholisi Cyfathrebu gan y Cyngor ym mis Mehefin 2007 (yn amodol ar egluro ychydig o fanylion). Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol â'r Cynulliad ym mis Awst a chytunwyd ar nifer o gamau i ddatblygu ymagwedd fwy strategol a chydlynol at weithgareddau cyfathrebu.

## Pwyllgorau a gweithgorau'r cyngor yn 2007–08

- *Y Pwyllgor Asesu Ansawdd / Pwyllgor Dysgu ac Addysgu*  
Cadeirydd: Yr Athro Philip Gummett
- *Y Pwyllgor Archwilio a Risg*  
Cadeirydd: Mr Tim Rees
- *Y Pwyllgor Adnoddau Dynol*  
Cadeirydd: Mrs Tina Stephens
- *Y Pwyllgor Tâl*  
Cadeirydd: Yr Athro Syr Roger Williams
- *Y Pwyllgor Trydedd Genhadaeth*  
Cadeirydd: Dr Len Arthur
- *Y Panel Ailgyflunio a Chydweithio*  
Cadeirydd: Dr Geoffrey Thomas
- *Grŵp Llywio Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch*
- *Pwyllgor Ehangu Mynediad*  
Cadeirydd: Yr Athro Philip Gummett
- *Panel Asesu'r Gronfa Datblygu Strategol*  
Cadeirydd: Yr Athro Syr Roger Williams
- *Grŵp Ymgynghori ar Ymchwil*  
Cadeirydd: Yr Athro Syr Brian Smith

## Aelodau'r cyngor yn ystod 2007–08

### Yr Athro Syr Roger Williams, Cadeirydd

Cyn Is-ganghellor, Prifysgol Reading  
[Penodwyd i'r Cyngor gyntaf ym 1995;  
Penodwyd yn Gadeirydd yn 2002;  
Ailbenodwyd am gyfnod o dair blynedd yn 2005.]

Addysgwyd yr Athro Syr Roger Williams yn Ysgol Ramadeg Tredegar a graddiodd mewn ffiseg yn Rhydychen. Ar ôl cyfnod gyda'r Bwrdd Glo Cenedlaethol mewn Ymchwil Weithrediadol, roedd ar staff Prifysgol Manceinion o 1966 hyd 1993 gyda chyfnodau o secondiad yn UDA, Canada ac Awstralia. Roedd yn Is-ganghellor Prifysgol Reading o 1993 hyd 2002.

Roedd yn Ymgynghorydd Arbennig i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Wyddoniaeth a Thechnoleg o 1986 hyd 1992 ac yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor y Cyngor Ymchwil Gwyddoniaeth a Pheirianeg a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Ymunodd Syr Roger â'r Cyngor ym 1995 a chafodd ei benodi'n Gadeirydd ar 1 Mawrth 2002 am gyfnod o 3 blynedd, hyd at 28 Chwefror 2005, a'i ailbenodi hyd at Chwefror 2008. Urddwyd ef yn farchog yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn 2006, i gydnabod ei wasanaeth i Addysg Uwch.

## Aelodau Eraill:

### Yr Athro Philip Gummett

Prif Weithredwr  
[o fis Mai 2004]

Yr Athro Gummett yw Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Ymunodd â CCAUC o Brifysgol Manceinion, lle yr oedd yn Ddirprwy Is-ganghellor, yn gyn Bennaeth yr Adran Llywodraeth ac yn Athro Llywodraeth a Pholisi Technoleg. Roedd yn un o sylfaenwyr ac yn gyfarwyddwr anweithredol PREST (Ymchwil Polisi mewn Peirianeg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg) ym Manceinion – un o'r canolfannau ymchwil polisi gwyddoniaeth pwysicaf yn y byd, ac mae'n gyn-aelod, ac yn Gadeirydd Bwrdd Arholwyr Bwrdd Hyfforddi'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

### **Dr Len Arthur**

Cyn Uwch Ddarlithydd yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd

[1 Mai 2002 hyd 30 Ebrill 2005; 1 Mai 2005 hyd 30 Ebrill 2008, wedi'i hestyn i 30 Tachwedd 2008]

Mae gan Dr Len Arthur 35 mlynedd o brofiad mewn addysg bellach ac uwch yng Nghymru a Lloegr ac roedd yn uwch ddarlithydd yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd ac yn Gyfarwyddwr Ymchwil a Menter yn Ysgol Fusnes yr Athrofa. Mae Dr Arthur wedi chwarae rhan flaenllaw yng ngwaith Cymdeithas Genedlaethol yr Athrawon mewn Addysg Bellach ac Uwch.

---

### **Yr Athro Mari Lloyd-Williams**

Athro a Chyfarwyddwr y Grŵp Astudiaethau Gofal Lliniarol a Chefnogol Academiaidd, Prifysgol Lerpwl [1 Ionawr 2007 hyd 31 Rhagfyr 2009]

Bu gan yr Athro Lloyd-Williams gadair bersonol yng Nghyfadrannau Feddygol Prifysgol Lerpwl er 2003, lle y mae hi hefyd yn ymgynghorydd mewn meddygaeth liniarol ac yn Gyfarwyddwr un o'r rhaglenni addysg feddygol gymunedol mwyaf yn y DU. Roedd yn Uwch Ddarlithydd Anrhydeddus ac yn Arweinydd Meddygol yn Hosbis LOROS yng Nghaerlŷr. Mae ganddi broffil rhyngwladol am ei hymchwil i agweddau seicogymdeithasol ar ganser i gleifion a theuluoedd, a hefyd am ofal lliniarol i gleifion heb ganser, a hi yw'r prif ymchwilydd ar gyfer sawl grant pwysig. Mae ganddi brofiad eang ar bwyllgorau rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol y Cyngor Meddygol Cyffredinol a Phwyllgor yr Adran Iechyd ar Ofal Seicogymdeithasol. Yn rhugl ei Chymraeg, mae'n un o ymddiriedolwyr Hosbis St Kentigern a'r capel cynulleidfaoel, ac mae'n ynad heddwch.

---

### **Mr Tim Rees**

[25 Mehefin 2002 hyd 24 Mehefin 2005; 25 Mehefin 2005 hyd 24 Mehefin 2008, wedi'i hestyn i 30 Tachwedd 2008]

Mae Mr Tim Rees yn Gyfrifydd Siartredig gyda phrofiad helaeth o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Gwasanaethodd ar Fwrdd Prifysgol Morgannwg o 1992 ac roedd yn Gadeirydd y Llywodraethwyr o 1996 hyd nes iddo gael ei benodi i CCAUC. Mae Mr Rees wedi gwasanaethu gydag Awdurdod Tir Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru ac Awdurdod Gwasanaethau Cyffredin Iechyd Cymru.

### **Yr Athro D Garel Rhys OBE**

Cyn Gyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Diwydiant Modurol, Prifysgol Caerdydd.

[31 Hydref 2003 hyd 30 Hydref 2006; ailbenodwyd 31 Hydref 2006 hyd 30 Hydref 2009]

Roedd yr Athro Emeritws Garel Rhys yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil Diwydiant Modurol yn Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd ac roedd yn dal cadair Cymdeithas y Gwneuthurwyr a Masnachwyr Cerbydau Modur mewn Economeg Diwydiant Modurol. Roedd yn bennaeth Adran Economeg yr Ysgol Fusnes hyd 1999. Mae'n Gadeirydd Fforwm Modurol Cymru. Mae hefyd wedi cynghori amryw Bwyllgorau Dethol. Ar hyn o bryd mae'n gadeirydd Panel Cynghori ar Ymchwil Economaidd y Cynulliad Cenedlaethol (nid yw'n derbyn cyflog) ac yn aelod o Grŵp Cynghori Gweinidogion yr Adran Economi a Thrafnidiaeth. Mae hefyd yn aelod o Banel Cynghori'r DTI ar y Diwydiant Rasio Modur. Mae'n Athro Emeritws ym Mhrifysgol Caerdydd.

---

### **Mr Kenneth Richards**

[1 Ionawr 2007 hyd 31 Rhagfyr 2009]

Addysgwyd Mr Ken Richards yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd ac Adran Economeg Athrofa Dechnoleg Massachusetts. Treuliodd y rhan fwyaf o'i yrfa fel academydd ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle y daeth yn Uwch Ddarlithydd mewn Trethiant a Chyllid yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes. Roedd yn aelod o'r ddau adolygiad annibynnol o gyllid myfyrwyr yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth yr Athro Teresa Rees, ac mae wedi cyhoeddi nifer o bapurau academiaidd ar y pwnc hwnnw. Ef yw Trysorydd Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, ac mae'n aelod o Bwyllgor Buddsoddiadau Prifysgol Aberystwyth, ac mae'n eistedd ar Bwyllgor Gwaith Ymddiriedolaeth Pantyfedwen. Mae Mr Richards yn Gymrawd Ymchwil Anrhydeddus yn Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd.

---

### **Yr Athro Syr Brian Smith**

[1 Rhagfyr 2002 hyd 30 Tachwedd 2005; 1 Rhagfyr 2005 hyd 30 Tachwedd 2008]

Penodwyd Syr Brian yn Is-ganghellor Prifysgol Caerdydd ym 1993, ac ymddeolodd yn 2001. Cyn hynny, bu'n bennaeth Coleg y Santes Catherine, Prifysgol Rhydychen. Urddwyd ef yn farchog ym 1999 mewn cydnabyddiaeth o'i lwyddiant i adeiladu cysylltiadau o fudd i'r naill ochr a'r llall

rhwng y Brifysgol a diwydiant a masnach. Mae Syr Brian hefyd wedi gwasanaethu gydag Awdurdod Datblygu Cymru o fis Hydref 1998, gan helpu i agor marchnadoedd i Gymru yn India a Tsieina. Syr Brian yw Llysgennad Rhyngwladol Prifysgol Caerdydd.

---

### **Mrs Tina Stephens**

Arbenigwr mewn rheolaeth a datblygu staff  
[1 Mai 2002 hyd 30 Ebrill 2005; 1 Mai 2005 hyd 30 Ebrill 2008, wedi'i hestyn i 30 Tachwedd 2008]

Mae Mrs Tina Stephens yn arbenigo mewn rheolaeth a datblygu staff ac yn Brif Arholwr gyda'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad. Mae ganddi 26 blynedd o brofiad mewn addysg uwch ac roedd yn bennaeth Ysgol Fusnes Wrecsam, rhan o Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru. Mae Mrs Stephens yn Gadeirydd Grwpiau Cyswllt Gogledd Cymru, rhwydwaith sy'n hyrwyddo datblygiad mentrau bach i ganolig er mwyn meithrin cyfleoedd economaidd a gwaith.

---

### **Dr Geoffrey Thomas**

Cyn Bennaeth yr Adran Addysg Barhaus, Prifysgol Rhydychen a Llywydd Coleg Kellogg (hyd 31 Rhagfyr 2007)

[1 Mehefin 2000 hyd 30 Mai 2003; 1 Mehefin 2003 hyd 30 Mehefin 2005, wedi'i hestyn i 30 Medi 2005]

Ailbenodwyd [1 Ionawr 2006 hyd 31 Rhagfyr 2008]

Cyn Bennaeth yr Adran Addysg Barhaus ym Mhrifysgol Rhydychen a Llywydd Coleg Kellogg yw'r Dr Geoffrey Thomas. Yn frodor o Gymru, fe raddiodd ym Mhrifysgol Abertawe. Enillodd ei radd ymchwil ym Mhrifysgol Caergrawnt. Treuliodd gyfnodau yn ysgolhaig ymweld yn Sefydliad Smithsonian yn Washington DC, ym Mhrifysgol Harvard, ym Mhrifysgol California yn Berkeley, a Phrifysgol Washington. Mae hefyd wedi bod yn Aelod o Gyngor y Gymdeithas Brydeinig, ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas y Prifysgolion dros Addysg Barhaus, ac yn aelod o Bwyllgor Ymchwilio Swyddfa'r Cabinet i Ddealltwriaeth Gyhoeddus o Wyddoniaeth.

### **Yr Athro Nigel Stott CBE**

[1 Ionawr 2006 hyd 31 Rhagfyr 2008]

Mae'r Athro Nigel Stott ar hyn o bryd yn Athro Emeritws Meddygaeth Teulu yng Nghymru (a leolir ym Mhrifysgol Caerdydd) a dyfarnwyd CBE iddo am Wasanaeth i Feddygaeth yn 2001. Cafodd Gymrodoriaeth Er Anrhydedd gan Brifysgol Caerdydd ym mis Gorffennaf 2007 ac mae'n gymrawd o Goleg Brenhinol y Meddygon yng Nghaeredin, Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu a'r Academi Gwyddorau Meddygol. Bu'n aelod o Gyd-bwyllgor Meddygol y cynghorau cyllido addysg uwch, y Pwyllgor Sefydlog Addysg i Ôl-raddedigion yng Nghymru, Cyngor Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu Cymru a Phwyllgor Strategaeth Ymchwil Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru. Bu hefyd yn gwasanaethu fel aelod anweithredol o Fwrdd Ymddiriedolaeth Ysbyty Prifysgol Cymru ac fe'i penodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn gadeirydd gr p cyfeirio a ddatblygodd Strategaeth Gofal Iechyd Sylfaenol i Gymru yn 2001.

---

### **Mrs Pauline Thomas**

Pennaeth Ysgol Gyfun Abertyleri

[1 Ebrill 2007 hyd 31 Mawrth 2010]

Graddiodd Mrs Pauline Thomas ym Mhrifysgol Nottingham gyda gradd mewn Cemeg ac ym Mhrifysgol Keele (Coleg Alsager) gyda TAR (gyda chlod) mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg, ac enillodd MA mewn Rheolaeth Addysgol gan y Brifysgol Agored ym 1998. Symudodd i Gymru ym 1999 a fe'i penodwyd yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Gyfun Sir Fynwy. Cwblhaodd Mrs Thomas ei Chymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2001 ac fe'i penodwyd i'w swydd bresennol fel Pennaeth Ysgol Gyfun Abertyleri ym mis Ionawr 2002. Bu'n aelod etholedig o Gyngor Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgol a Choleg ers 1999 a bu'n Swyddog Aelodaeth cyn cael ei hethol yn Ysgrifennydd Mygedol yn 2005.

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Am y flwyddyn yn diweddu 31  
Mawrth 2008



# Adroddiad blynyddol

## Cyflwyniad a chefnidir

### Cefndir statudol

Cafodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ei sefydlu o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Ar 7 Mai 1999, cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei greu a throsglwyddwyd y rhan fwyaf o swyddogaethau'r Swyddfa Gymreig iddo ar 1 Gorffennaf 1999. Yn sgil hyn, daeth CCAUC yn gorff a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt fel y'i sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998). O ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae CCAUC bellach yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r cyfarwyddyd a wnaed gan Weinidogion Cymreig gyda chaniatâd y Trysorlys, gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd gan baragraff 16(2) o atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd gan y Cyngor.

Paratwir y cyfrifon yn unol â gofynion y Deddfau Cwmniâu a'r Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo, i'r graddau y mae'r gofynion hyn yn briodol.

Mae'r datganiadau hyn yn cynnwys pumed cyfnod adrodd ar ddeg y Cyngor, ac maent yn adlewyrchu datblygiad parhaus systemau a pholisiau'r Cyngor.

### Cyfrifoldebau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Mae CCAUC yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac eraill, i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch Cymru a chysiau addysg uwch penodedig a ddarperir yn sefydliadau'r awdurdodau lleol neu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, ac am gyflawni'r swyddogaethau atodol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg 1994.

### Cyfraniad y staff

Mae cyfarfodydd a seminarau staff rheolaidd yn sicrhau cyfathrebu da o fewn y sefydliad ac yn rhoi cyfle i unigolion gyfrannu at weithrediad y Cyngor. Bydd Cyngor Gwaith, lle gall cynrychiolwyr godi materion ar ran y staff, yn cyfarfod yn rheolaidd.

Ar 26 Ionawr 2000, dyfarnwyd statws Buddsoddwyr mewn Pobl i'r Cyngor. Cafodd y dyfarniad hwn ei ailasesu ym mis Hydref 2006 a darganfuwyd bod y Cyngor yn parhau i gwrdd â'r safon Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae achrediad CCAUC yn weithredol hyd fis Hydref 2009.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu ei Bolisi Cyfle Cyfartal i sicrhau y caiff pob aelod staff ei drin yn deg, heb ystyried rhyw, oedran, statws priodasol, anabledd, tarddiad hiliol neu ethnig, gogwydd rhywiol, crefydd na chredo.

Seilir polisi recriwtio'r Cyngor ar allu'r ymgeisydd i wneud y gwaith. Rhoddir ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am swyddi gan bobl anabl os yw'r medrau a'r galluoedd priodol ganddynt i gyflawni'r dyletswyddau. Pe bai aelod o'r staff yn dod yn anabl, byddai'r Cyngor yn gwneud pob ymdrech i gadw'r aelod o staff yn ei swydd ac i ddarparu cyfleoedd digonol ar gyfer ailhyfforddiant a datblygiad gyrfa.

### Polisi talu credydwy

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llawn i dalu biliau ei gyflenwyr yn brydlon ac mae'n cefnogi Cod Talu'n Brydlon Cydffederasiwn Diwydiant Prydain. Mae dadansoddiad o berfformiad talu'r Cyngor yn 2007-08 yn dangos i 98.5% o'r anfonebau (2006-2007: 97.8%) gael eu talu yn unol ag amodau'r contract neu, os nad oedd amodau, o fewn 30 diwrnod ar ôl i anfoneb ddilys gael ei chyflwyno.

### Archwilwyr

Caiff cyfrifon y Cyngor eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion paragraff 16(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Caiff ffioedd archwilio allanol mewn perthynas â hyn a gwaith archwilio arall eu dangos yn Nodiadau 3 a 6 i'r cyfrifon hyn.



Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Cyngor yn ymwybodol ohoni; ac mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd yr holl gamau gofynnol i sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Aelodau'r Cyngor

Bu'r bobl ganlynol yn gwasanaethu fel aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn a gwmpesir gan yr adroddiad:

### Cadeirydd

Yr Athro Syr Roger Williams  
*Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Reading*

### Aelodau

Yr Athro Philip Gummett *Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru*

Dr Len Arthur  
*Uwch Ddarlithydd yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd*

Yr Athro Mari Lloyd-Williams *Cyfarwyddwr Astudiaethau Cymunedol, Prifysgol Lerpwl*

Mr R P V (Tim) Rees  
*Cyfrifydd Siartredig; cyn Gadeirydd y Llywodraethwyr, Prifysgol Morgannwg*

Yr Athro D Garel Rhys CBE  
*Cyn Gyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Diwydiant Modurol, Prifysgol Caerdydd*

Mr Kenneth Richards  
*Cyn Uwch Ddarlithydd mewn Trethiant a Chyllid, Prifysgol Aberystwyth*

Yr Athro Syr Brian Smith  
*Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd*

Mrs Tina Stephens  
*Arbenigwr mewn rheolaeth a datblygiad staff; Prif Arholwr gyda'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad*

Yr Athro Nigel Stott CBE  
*Athro Emeritws Meddygaeth Teulu yng Nghymru, Prifysgol Caerdydd*

Dr Geoffrey P Thomas  
*Cyn Bennaeth yr Adran Addysg Barhaus, Prifysgol Rhydychen a Llywydd Coleg Kellogg*

Mrs Pauline Thomas (*penodwyd 1 Ebrill 2007*)  
*Pennaeth Ysgol Gyfun Abertyleri*

Bu Aelodau canlynol y Cyngor yn gwasanaethu ar bwyllgorau a phaneli CCAUC yn ystod y flwyddyn:

Pwyllgor/panel	Aelodau
Tâl	Yr Athro Syr Roger Williams (Cadeirydd), Mrs Tina Stephens
Ehangu mynediad	Yr Athro Philip Gummett (Cadeirydd)
Asesu ansawdd	Yr Athro Philip Gummett (Cadeirydd)
Archwilio a risg	Mr Tim Rees (Cadeirydd), Yr Athro Nigel Stott
Adnoddau dynol	Mrs Tina Stephens (Cadeirydd), Mr Tim Rees, Yr Athro Garel Rhys
Ailgyflunio a chydweithio	Dr Geoffrey Thomas (Cadeirydd), Mr Tim Rees, Yr Athro Garel Rhys
Trydedd genhadaeth	Dr Len Arthur (Cadeirydd)
Dysgu ac addysgu	Yr Athro Philip Gummett (Cadeirydd)
Asesu'r gronfa datblygu strategol	Yr Athro Syr Roger Williams (Cadeirydd), Yr Athro Syr Brian Smith, Yr Athro Philip Gummett
Grŵp ymgynghori ar ymchwil	Yr Athro Syr Brian Smith (Cadeirydd)
Penodiadau	Yr Athro Syr Roger Williams (Cadeirydd), Dr Len Arthur, Mr Tim Rees, Mrs Tina Stephens, Yr Athro Philip Gummett

## Aseswr a benodwyd gan Weinidogion Cymreig

Dr David Bacon

*Pennaeth yr Is-adran Addysg Uwch, Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru*

Gellir archwilio'r gofrestr o fuddiannau'r aelodau drwy wneud cais i Glerc y Cyngor yn swyddfeydd y Cyngor yn Llanisien.

## Sylwadaeth y rheolwyr

### Datganiad o genhadaeth a nodau strategol

Cenhadaeth y Cyngor yw hybu addysg uwch o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru ac y tu hwnt.

Gan weithio gyda phartneriaid, mae'r Cyngor yn defnyddio cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i:

- sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf;
- cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru; a
- sicrhau darpariaeth hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar hyd a lled Cymru.

Ym mhopeth a wnawn, rydym wedi ymrwymo i gynnal gwerthoedd sylfaenol parhaol addysg uwch, sef:

#### *Ysgolheictod a dysg*

Cynnal diwylliant sy'n gofyn am feddwl disgybledig a gonestrwydd deallusol, yn annog chwilfrydedd, yn herio syniadau sefydledig ac yn esgor ar syniadau newydd.

#### *Cyfrifoldeb dinesig*

Chwarae rhan bwysig mewn hybu dinasyddiaeth dda a siapio cymdeithas gynhwysol ddemocrataidd wedi'i seilio ar barch at hawliau'r unigolyn a chyfrifoldeb tuag at gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

#### *Dysgu gydol oes*

Galluogi unigolion i feithrin eu galluoedd hyd eithaf eu potensial drwy gydol eu bywydau.

#### *Cynaliadwyedd*

Gweithio i sicrhau bod y sector yn datblygu'n strwythurol mewn ffordd sy'n arwain at gyflawni'r nodau strategol, a'i fod yn parhau'n gystadleuol yn rhyngwladol.

Nodau strategol y Cyngor wrth gwrdd â'i gyfrifoldebau yw:

- Ymgynraedd yn ehangach:** sicrhau cyfranogiad a mynediad ehangach er mwyn hybu cymdeithas gynhwysol a gwella sgiliau er lles yr economi;
- Y 'fargen i fyfyrwyr':** sicrhau dysgu a chymorth cysylltiedig o'r safon uchaf;
- Ymchwil ragorol:** sicrhau gwell perfformiad ymchwil a fydd yn sylfaen i'r economi gwybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol;
- Bod o fudd i'r economi a chymdeithas:** sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol;
- Hyfforddiant cychwynnol athrawon:** cynhyrchu athrawon newydd o ansawdd uchel;
- Gwneud iddi weithio:** Y sector addysg uwch yng Nghymru: pwyslais cryf ar ailgyflunio, cydweithio, a mesurau eraill i gynnal perfformiad gwell gan sefydliadau unigol a'r gyfundrefn addysg uwch yn ei chyfanrwydd; a
- Gwneud iddi weithio:** CCAUC: bod yn gorff sector cyhoeddus effeithiol drwy: i) fod â'r gallu a'r isadeiledd sy'n ei gwneud yn bosibl i ni weithio'n effeithiol yn fewnol a chyda'n holl randdeiliaid a phartneriaid (yn enwedig Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector AU yng Nghymru); a (ii) bod yn gyflogwr y mae pobl yn ei ddewis.

## Llythyr Cylch Gwaith

Ym mis Chwefror 2007, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y llythyr cylch gwaith blynyddol i'r Cyngor. Mae hyn yn nodi arweiniad Llywodraeth y Cynulliad i'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn, a'r blaenoriaethau a'r allbynnau y mae'r Gweinidog yn disgwyl i'r Cyngor roi sylw iddynt ac y dylid eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gweithredol y Cyngor. Roedd yr eitemau yn y llythyr cylch gwaith yn cynnwys ail-bwyslais ar ailgyflunio a chydweithio ac ar ehangu mynediad, gweithredu adolygiad Graham, ailgyflunio hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA), a diwygiadau yn y sector cyhoeddus, fel y nodir yn *Gwneud y Cysylltiadau a Chyflawni'r Cysylltiadau*.

## Cynllun Gweithredol

O blith y 52 o weithredoedd a nodwyd yng Nghynllun Gweithredol 2007-08, cyflawnwyd 47 ohonynt, cyflawnwyd un ohonynt yn rhannol, cafodd un ei gollwng gan nad oedd yn berthnasol bellach, a chariwyd tair ymlaen i 2008-09.

Dyma rai o'r gweithredoedd allweddol yn y Cynllun Gweithredol:

- *Gweithredu rhaglen i wella cyfraddau cadw mewn AU.* Cynhyrwyd rhaglen weithredu a dechreuwyd ei rhoi ar waith, er enghraifft, gwaith y sefydliadau ar ddilyn hynt a monitro myfyrwyr;
- *Ceisio strategaethau dysgu ac addysgu tair-blynedd newydd a darparu adborth.* Bydd hyn yn cynnwys annog sefydliadau i nodi sut y gall Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU ar gyfer addysgu a chefnogi dysgu mewn addysg uwch gael ei hybu drwy eu strategaethau. Cyflwynwyd strategaethau gan yr holl sefydliadau.
- *Cwblhau'r adolygiad o bolisi ymchwil erbyn mis Gorffennaf 2007 a chyhoeddi'r canlyniadau erbyn mis Awst 2007.* Cytunodd y Cyngor ar ddatganiad o amcanion polisi ymchwil a senario cyllido ategol cyffredinol ac fe'u cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2007;
- *Lansio'r ail gylch cyllido trydedd genhadaeth tair-blynedd.* Cynhyrwyd strategaethau trydedd genhadaeth newydd a dechreuwyd eu cyllido ym mis Rhagfyr 2007;
- *Gweithio gyda'r sector HCA i weithredu cynlluniau ar gyfer ailgyflunio HCA.* Derbyniwyd cynlluniau manwl gan y sefydliadau a dilynwyd hyn gan ddeialog rhwng y Cyngor a'r sefydliadau, gan gynnwys rhoi prawf ar dybiaethau. Cyflwynwyd yr adroddiad i Lywodraeth y Cynulliad;
- *Cysylltu â'r sector i ddatblygu cyflwyniadau i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio, a chadarnhau targedau a gweithredoedd i'w cyflawni.* Cadarnhawyd targedau a gweithredoedd i'w cyflawni ar gyfer partneriaethau a gymeradwywyd yn 2007-08: cydweithio gweinyddol swyddogaethol yn Ne-Orllewin Cymru a'r Sefydliad Ymchwil Carbon Isel.

Hefyd mae CCAUC a'r sector AU wedi chwarae rhan lawn yng nghynllun *Gwneud y Cysylltiadau* Llywodraeth y Cynulliad. Mewn gwaith a wnaed ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar ba mor barod yw cyrff a sut maent hwy'n cyflawni *Gwneud y Cysylltiadau* ym maes llywodraeth ganolog, aseswyd bod CCAUC yn gwneud yn arbennig o dda yn erbyn y thema o weithio gyda'i gilydd, ac yn galonogol yn erbyn

y themâu o wneud gwell defnydd o adnoddau a pharatoi a datblygu'r gweithlu.

Yn ogystal, mae CCAUC wedi ymgymryd â chryn ailstrwythuro trefniadaethol yn ystod 2007-08, er mwyn galluogi'r corff i ganolbwyntio'n gryfach ar ryngweithiad strategol gyda'r sector a Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys cynlluniau strategol a chynaliadwyedd tymor-hir y sefydliadau, ac arweinyddiaeth, llywodraeth a rheolaeth. Mae'r ailstrwythuro wedi cynnwys creu dwy gyfarwyddiaeth yn lle un, a gostyngiad yn nifer y penaethiaid timau o naw i bedwar. Ymgynghorwyd â'r Cyngor Gwaith a'r staff yn gyffredinol drwy gydol y broses, a cholodd dau bennaeth tîm eu swyddi'n wirfoddol am gost o £53,000.

## Adolygiad ariannol

Y costau gweithredol net am y flwyddyn oedd £444.7 miliwn (costau gweithredol net 2006-07 (ailddatganwyd) £433.7 million). Y gronfa gyffredinol gronnu ar 31 Mawrth 2008, ar ôl credydu cyllid cymorth grant o £443.6 miliwn, oedd £6.3 miliwn (2006-07 (ailddatganwyd) £7.2 miliwn). Cynllunnir gwariant y Cyngor ar sail y cyllid sydd ar gael iddo trwy gymorth grant blynyddol a dderbynnir ac incwm arall a gweddillion y gronfa gyffredinol. Bydd y datganiadau ariannol bob amser yn cofnodi canlyniad costau gweithredol net ar gyfer y flwyddyn o ganlyniad i gredydu cyllid i'r gronfa gyffredinol yn y fantolen. Cynllunnir gweithgareddau'r Cyngor hefyd i sicrhau bod yr arian parod a gaiff ei gario ymlaen ganddo'n aros o fewn y ddau y cant o gyfanswm cymorth grant ar gyfer y flwyddyn a ganiateir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gwariwyd cyfanswm o £258,000 ar asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn.

## Adroddiad ar Dâl

### Polisi talu

Pennir tâl y Cadeirydd, Aelodau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae tâl y Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor yn dod o fewn Cynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Talu Cadeiryddion ac Aelodau CCNCau a Chyrff GIG, a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2004.

Pennir tâl y Prif Weithredwr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gall gynnwys bonws ar sail perfformiad o hyd at 10% yn seiliedig ar asesu targedau perfformiad a bennir gan Gadeirydd y Cyngor.

Pennir tâl y cyfarwyddwyr yn unol â system cyflog a graddio gymeradwy y Cyngor, sy'n berthnasol i'r holl staff a benodir. Caiff lefelau tâl cyffredinol y Cyngor a'i gylch gwaith cyflog blynyddol, sy'n berthnasol i'r holl staff gan gynnwys y cyfarwyddwyr, eu

cymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Nid yw bonws penodol yn daladwy i'r cyfarwyddwyr, er y gellir gwneud dyfarniad perfformiad blynyddol sy'n gyfwerth â chynnydd un cam ar fandiau cyflog yn unol â'r broses gwerthuso perfformiad sy'n berthnasol i'r holl staff a benodir.

## Pwyllgor tâl

Mae gan CCAUC Bwyllgor Tâl sy'n gyfrifol am adolygu perfformiad y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr yn flynyddol. Mae gan y pwyllgor, a fydd ar unrhyw adeg yn cynnwys o leiaf dau aelod, y bydd y ddau ohonynt yn Aelodau o'r Cyngor, awdurdod dirprwyedig i ystyried materion sy'n effeithio ar dâl a bonws perfformiad y Prif Weithredwr ac i wneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â hynny.

## Datguddiadau cyflog a pensiwn\*

Swydd	Enw	Cyflog	Cynnydd real mewn Pensiwn a Lwmp-swm	Pensiwn ar 31/03/08 a Lwmp-swm	GTCA ar 01/04/07	GTCA ar 31/03/08	Cynnydd real mewn GTCA fel y'i cyllidwyd gan y cyflogwr
		£	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cadeirydd	Yr Athro Syr Roger Williams	£15,552 (2006-07: 15,168)	N/B	N/B	N/B	N/B	N/B
Prif Weithredwr	Yr Athro Philip Gummett	£107,794 (2006-07: 107,053)	pensiwn 0 - 2.5 a lwmp-swm 2.5 - 5	pensiwn 5 - 10 a lwmp-swm 25 -30	199	248	23
Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Richard Hirst	£85,445 (2006-07: 81,787)	0 - 2.5 pensiwn	40 - 45 pensiwn	633	765	38
Cyfarwyddwr Datblygu Strategol	David Blaney	£34,418 (2006-07: dim)	2.5 - 5 pensiwn	20 - 25 pensiwn	240	328	44

Gan fod rhai ffactorau'n anghywir yng nghyfrifwr GTCA y llynedd, mae'n bosibl y bydd gwahaniaeth bach rhwng y cyfnod GTCA terfynol ar gyfer 2006-07 a dechrau'r cyfnod GTCA ar gyfer 2007-08.

Cafodd David Blaney ei benodi'n gyfarwyddwr ar 1 Tachwedd 2007. Y cyflog blynyddol llawn yw £82,602. Y GTCA o £240k a ddangosir uchod yw'r gweddill ar 31 Hydref 2007, y diwrnod cyn ei benodi'n gyfarwyddwr.

Mae Richard Hirst a David Blaney yn aelodau o'r cynllun buddion diffiniedig Premium, rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Nid yw buddion y cynllun yn cynnwys talu lwmp-swm awtomatig ar ymddeoliad (gweler hefyd 'Pensiynau' isod).

Mae gan y Prif Weithredwr gytundeb parhaol ac mae'n aelod cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Nid yw'r Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor (ac eithrio'r Prif Weithredwr) yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac ni dderbyniant unrhyw fuddion pensiwn y telir amdanynt gan CCAUC. Mae Aelodau'r Cyngor (heb gynnwys y Cadeirydd a'r Prif

Weithredwr) yn derbyn cyflog amhensiynadwy o £4,878 y flwyddyn.

Cyflogau crynswth yw'r holl gyflogau a ddangosir, gan na dderbyniodd Aelodau'r Cyngor na'r staff uwch unrhyw daliadau eraill na buddion ar ffurf nwyddau, heblaw am y rheiny a ddatguddir isod.

\* Gall y wybodaeth hon gael ei harchwilio.

## Pensiynau

Darperir buddion pensiwn drwy'r trefniadau Pensiwn Gwasanaeth Sifil (PGS). O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod mewn un o bedwar cynllun buddion diffiniedig: naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (Classic, Premium a Classic Plus), neu gynllun 'gyrfa gyfan' (Nuvos). Mae'r cynlluniau statudol hyn heb eu cyllido a thelir am gost buddion drwy arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau Classic, Premium, Classic Plus a Nuvos eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu. Gall staff newydd ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis rhwng y trefniant buddion diffiniedig priodol neu 'bensiw a brynir' o ansawdd da wedi'i seilio ar gynllun cyfranddeiliaid gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Gosodir cyfraniadau staff ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer Classic a 3.5% ar gyfer Premium, Classic Plus a Nuvos. Mae buddion y cynllun Classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, telir lwmp-swm sy'n gyferweth â thair blynedd o bensiw ar ymddeoliad. Yn achos y cynllun Premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60 o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes lwmp-swm awtomatig. Cynllun hybrid yn y bôn yw Classic Plus gyda buddion mewn perthynas â gwasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel ar gyfer y cynllun Premium. Yn y cynllun Nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd pob blwyddyn (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei gynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Adwerthu. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am lwmp-swm hyd at yr uchafsymiau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant tebyg i bensiw cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i bensiw cyfranddeiliaid a ddewisir gan yr aelod staff o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r aelod staff gyfrannu, ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn gwneud taliadau cyfatebol hyd at 3% ar y mwyaf o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd y cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.8% arall o gyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn wrth gyrraedd 60 oed neu'n

syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd neu dros oedran pensiwn. Oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau'r cynlluniau Classic, Premium a Classic Plus a 65 ar gyfer aelodau'r cynllun Nuvos.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil ar y wefan


[www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk)

## Gwerthoedd trosglwyddo cyferweth arian

Gwerth Trosglwyddo Cyferweth Arian (GTCA) yw gwerth cyfalafedig y buddion cynllun pensiwn, wedi'i asesu gan actiwari, a gronwyd gan aelod ar adeg neilltuol mewn amser. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiw sy'n daladwy o'r cynllun i briod. Mae GTCA yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant pensiwn arall pan yw'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth o'r cynllun pensiwn o'r cychwyn cyntaf, nid yn unig â'i wasanaeth mewn swydd uwch y mae datguddio yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil. Maent hwy hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Cyfrifir y GTCA o fewn y canllawiau a'r fframwaith a bennwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Cynnydd real mewn GTCA

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTCA a gyllidir i bob pwrpas gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a delir gan yr aelod staff (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiau'r farchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.



## Yr Athro Philip Gummatt

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo,  
15 Gorffennaf 2008



## Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

O dan baragraff 16(2) o atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae gofyn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan Weinidogion Cymreig, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail gronadol a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae gofyn i'r Cyngor gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac, yn arbennig, i:

- gydymffurfio â'r cyfarwyddyd ar gyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymreig, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datguddio perthnasol, a chymhwyso polisiâu cyfrifo addas yn gyson;
- rhoi barnau ac amcangyfrifon rhesymol;
- nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifo cymwys fel y'u nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datguddio ac esbonio unrhyw wryiadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw, oni bo'n amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifo dros y Gweinidogion Cymreig wedi dynodi Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn Swyddog Cyfrifo. Eglurir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros sicrhau defnydd priodol a chywir o'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano a thros gadw cofnodion addas a diogelu asedau'r Cyngor, ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo.

## Datganiad ar Reolaeth Fewnol

### Hyd a lled fy nghyfrifoldeb

1 Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ei gwneud hi'n bosibl i'r Cyngor gyflawni ei bolisiau, nodau ac amcanion wrth ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau eraill yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuir i mi yn arweiniad y Trysorlys *Managing Public Money*. Eglurir fy rôl a'm cyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifo CCAUC yn y memorandwm, *The Responsibilities of an AGSB Accounting Officer*. Byddaf hefyd yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion yn Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru lle yr adolygir y blaenoriaethau ar gyfer CCAUC a'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r corff.

### Pwrpas y system rheolaeth fewnol

2 Lluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y perygl o fethu â chyflawni polisiâu, nodau ac amcanion; felly, ni all roi ond sicrhad rhesymol ac nid sicrhad absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a luniwyd i ddarganfod a blaenoriaethu'r prif risgiau i gyflawni nodau, amcanion a pholisiau CCAUC, i werthuso pa mor debygol ydyw y gwiredir y risgiau hyn a'r effaith pe caent eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Bu'r system rheolaeth fewnol yn ei lle yn CCAUC am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2008 a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd y cyfrifon ac mae'n cyd-fynd ag arweiniad y Trysorlys.

### Y gallu i ymdrin â risg

3 Mae dulliau CCAUC o reoli risg yn cael eu disgrifio yn ei bolisi a chanllawiau rheoli risg a ddiweddarwyd ym mis Chwefror 2008. Mae rheoli risg yn gofyn am ymagwedd gynlluniedig a systematig at ganfod, asesu a lleddfu'r risgiau a allai lesteirio ymdrechion i gyflawni amcanion strategol. Mae'r camau a gymerir gan CCAUC i ymgorffori rheoli risg yn ei brosesau yn cael eu crynhoi isod.

4 Nodir amcanion allweddol CCAUC yn ei Strategaeth Gorfforaethol a'i Gynllun Corfforaethol a Gweithredol. Y gwahanol dimau o fewn CCAUC sydd â chyfrifoldeb dros y gweithgareddau a'r prosesau yr ymgwymerir â hwy i gyflawni'r amcanion hyn. Y timau sy'n gyfrifol am ganfod ac asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni eu hamcanion, ac am gofnodi'r wybodaeth hon yng nghofrestri risg y tîm.

---

5 Os bernir bod risgiau i gyflawni amcanion CCAUC yn 'sylweddol' o ran y tebygolrwydd y byddant yn digwydd a'u heffaith bosibl, cânt eu hystyried yn risgiau ar y lefel gorfforaethol. Nodir y risgiau hyn mewn cofrestr risgiau corfforaethol ar wahân, yn ogystal ag yng nghofrestri'r timau, a cânt eu harchwilio'n ofalus ac yn rheolaidd gan y Bwrdd Rheoli, y Pwyllgor Archwilio a Risg, a'r Cyngor. Disgwylir i bob tîm:

- Sefydlu amcanion clir ar gyfer eu meysydd gwaith, gan gynnwys y rheiny o'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Cynllun Corfforaethol a Gweithredol diweddaraf, a chanfod a gwerthuso'r risgiau allweddol i gyflawni'r amcanion hyn;
- Ymgorffori ymatebion i risgiau mewn system rheolaeth fewnol sydd â'r nod o fynd i'r afael â chyfleoedd, hwyluso gweithgareddau effeithiol ac effeithlon, gwarchod buddiannau CCAUC, a sicrhau cydymffurfiaid â deddfau ac arweiniad perthnasol;
- Llunio, gweithredu a monitro'r system rheolaeth fewnol;
- Sicrhau bod risgiau newydd yn cael eu canfod a bod ymateb priodol yn cael ei roi ar waith;
- Monitro effeithiolrwydd y system rheoli risg a'r system rheolaeth fewnol, ac adrodd ar wendidau o bwys neu ddiffyg cydymffurfio i'r Bwrdd Rheoli;
- Sicrhau bod ymagwedd risg-seiliedig at reolaeth fewnol yn cael ei chyfleu i holl aelodau'r tîm ac yn cael ei hymgorffori mewn prosesau gweithredol;
- Darparu sicrwydd blynyddol ynghylch cydymffurfiaid â'r Polisi hwn ar ffurf datganiad ar reolaeth fewnol gan y Cyfarwyddwr neu Bennaeth Tîm perthnasol i'r Prif Weithredwr.

## Y fframwaith risg a rheolaeth

6 Mae rolau a chyfrifoldebau penodol y gwahanol grwpiau ac unigolion o fewn CCAUC yn cael eu nodi isod.

Corff	Cyfrifoldebau allweddol
Cyngor CCAUC	Cymeradwyo'r strategaeth a pholisïau rheoli risg, a phenderfynu beth yw 'archwaeth risg' CCAUC, wedi'i gynghori gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Rheoli.
Pwyllgor Archwilio a Risg	Adolygu pa mor ddigonol yw'r strwythurau, prosesau a chyfrifoldebau ar gyfer canfod a rheoli'r risgiau allweddol sy'n wynebu CCAUC, a chynghori'r Cyngor ar effeithiolrwydd y mesurau sydd mewn grym i warchod asedau CCAUC ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra.
Y Prif Weithredwr	Fel Swyddog Cyfrifo, y Prif Weithredwr sy'n parhau'n atebol yn y pen draw am y corff a sut mae'n rheoli risg. Rhaid iddo: <ul style="list-style-type: none"> <li>• fod â dealltwriaeth gadarn a chael asesiad clir o'r risgiau a allai rwystro cyflawni'r amcanion</li> <li>• sicrhau bod gan y corff brosesau rheoli risg effeithiol</li> <li>• cael sicrwydd bod y prosesau a'r risgiau strategol allweddol yn cael eu rheoli'n effeithiol.</li> </ul>
Y Bwrdd Rheoli	Perchenogion y gofrestr risgiau corfforaethol sy'n gyfrifol am ei hadolygu'n rheolaidd (o leiaf deirgwaith y flwyddyn cyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg) i sicrhau bod y risgiau allweddol ar gyfer CCAUC yn cael eu cofnodi a'u rheoli'n effeithiol.
Cyfarwyddwyr a Phenathiaid y Timau	Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am oruchwylio a chymeradwyo cofrestri risg y Timau.  Penaethiaid y Timau yw perchenogion cofrestri risg y Tîm (gweithredol) a'r cofrestri risg prosiect ar gyfer eu Timau eu hunain.  Maent hwy'n gyfrifol am sicrhau bod: <ul style="list-style-type: none"> <li>• cofrestri'n cael eu paratoi, sy'n ymdrin â'r risgiau allweddol mewn perthynas â gweithgareddau neu brosiectau a reolir gan y Tîm;</li> <li>• risgiau'n cael eu hasesu yn erbyn meini prawf gwerthuso cyffredin CCAUC, i sicrhau'n arbennig bod y cofrestri'n gwahaniaethu'n glir rhwng risgiau sylweddol (corfforaethol) a risgiau bach;</li> <li>• systemau'n cael eu sefydlu i fonitro a diweddarw'r cofrestri yn rheolaidd (o leiaf deirgwaith y flwyddyn);</li> <li>• gweithredoedd y penderfynir arnynt i reoli'r risgiau allweddol yn effeithiol a digonol.</li> </ul>



Corff	Cyfrifoldebau allweddol
Is-adran Sicrhau Risg	<p>Rhoi cyngor ar ddatblygu a gweithredu'r polisi a chanllawiau rheoli risg a hwyluso eu gweithrediad.</p> <p>Datblygu cynllun archwilio risg-seiliedig (mewn ymgynghoriad ag aelodau'r Bwrdd Rheoli ac i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg) fel bod sicrhau drwy archwilio yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y mesurau rheoli sydd yn eu lle i reoli'r risgiau mwyaf sylweddol.</p> <p>Rhoi barn flynyddol, wedi'i seilio ar y cynllun archwilio risg-seiliedig, i'r Swyddog Cyfrifo am effeithiolrwydd llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol.</p>
Pob Aelod Arall o'r Staff	Nodi a rheoli risgiau gweithredol a risgiau prosiect. Tynnu sylw eu rheolwr llinell at risgiau allweddol, a all fod yn ddigon difrifol i ofyn am fonitro ar y lefel gorfforaethol.

## Adolygu effeithiolrwydd

- 7** Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar waith yr archwilwyr mewnol a'r cyfarwyddwyr a phenaethiaid timau o fewn CCAUC sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Rwyf wedi derbyn cyngor ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliannau parhaus i'r system yn ei le.
- 8** Rhai datblygiadau penodol yn ystod 2007-08 i gryfhau ein gallu i gyflawni amcanion strategol CCAUC a rheoli risg oedd:
- Rhoddais ar waith adolygiad o'r strwythur trefniadaethol gyda'r nod o sicrhau bod gan CCAUC yr adnoddau i gyflawni ei amcanion strategol ac i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n ei wynebu. Cafodd y strwythur newydd ei weithredu mewn camau drwy gydol y flwyddyn ac roedd yn cynnwys penodi cyfarwyddwr ychwanegol a lleihau nifer y penaethiaid timau o naw i bedwar;
  - Yn dilyn adolygiad annibynnol derbyniodd CCAUC ardystiad ISO 27001 ar gyfer ei Systemau Rheoli Diogelwch Gwybodaeth. Credaf fod hyn yn

bwysig iawn o ystyried y pwyslais presennol ar ddiogelu data;

- Rhoddwyd strategaeth sicrhau data newydd ar waith, sydd â'r nod o ddarparu mwy o sicrwydd am y data a gynhyrchir gan sefydliadau at ddibenion cyllido.
- 9** Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol wedi nodi nifer o feysydd lle mae angen cryfhau rheolaeth yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiad. Ym mhob achos, cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwr perthnasol i fynd i'r afael â'r gwendidau. Un o'r materion a godwyd gan ein systemau rheoli yw peth oedi wrth weithredu'r gweithredoedd y cytunir arnynt. Sut bynnag, nid wyf yn ystyried bod unrhyw fater a godwyd yn awgrymu bod gwendid o bwys a ddylai gael ei ddatguddio yma, ac rwyf yn fodlon bod y system rheolaeth fewnol wedi datblygu'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.



**Yr Athro Philip Gummatt**  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo,  
15 Gorffennaf 2008

## Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf i mi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 o dan Baragraff 16(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Costau Gweithredu, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiâu cyfrifo a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Dâl a ddisgrifiwyd yn yr Adroddiad fel wedi'i harchwilio.

### Prïod gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r archwilydd

Mae'r Prif Weithredwr fel swyddog cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiad ar Dâl, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleiddra trafodion ariannol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl i'w harchwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol, a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (i'r DU ac Iwerddon).

Nodaf fy marn ar ba un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi barn gywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl i'w harchwilio wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno. Nodaf fy marn ar ba un a yw'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys y Cyflwyniad, Cefndir, Sylwadaeth Rheolwyr, a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl nad yw wedi'i harchwilio, yn gyson â'r datganiad ariannol. Nodaf hefyd pa un a yw'r gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ystyr berthnasol, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, nodaf pa un a yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifo

cywir ai peidio, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad neu os na chaiff gwybodaeth a nodwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi o ran tâl a thrafodion eraill ei datgelu.

Adolygaf a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru â chanllawiau'r Trysorlys, a nodaf os na fydd yn adlewyrchu hyn. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried a yw'r Datganiadau'r hyn yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, nac i lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru na'i weithdrefnau risgiau a rheoli.

Rwyf yn darllen y wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys y Cyflwyniad, Cefndir, Sylwadaeth Rheolwyr, a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl nad yw wedi'i harchwilio. Rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

### Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Cyngor a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiâu cyfrifo yn fwyaf priodol i amgylchiadau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i i roi digon o dystiolaeth i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl i'w harchwilio yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad a bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ystyr berthnasol a bod y trafodion ariannol

yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl sydd i'w harchwilio.

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi barn gywir a theg, yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Weinidogion Cymru, o gyflwr materion Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar 31 Mawrth 2008 a'i gostau gweithredu net a llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl i'w harchwilio wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys Cyflwyniad, Cefndir, Sylwadaeth Rheolwyr, a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl nad yw wedi'i harchwilio, yn gyson â'r datganiad ariannol.

## Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob ystyr berthnasol mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

### Jeremy Colman

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
24 Heol yr Eglwys Gadeiriol  
Caerdydd  
CF11 9LJ

16 Gorffennaf 2008

# Datganiad cost weithredol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008

	Nodyn	2008		2007 ailddatganwyd	
		£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Gwariant</b>					
<i>Cyllido addysg uwch:</i>					
Gwariant rheolaidd	3	422,881		408,291	
Gwariant cyfalaf	3	7,828		11,564	
Dibenion eraill	5	23,325		30,440	
		454,034		450,295	
<b>Gwariant y Cyngor:</b>					
Costau gweinyddu	6	708		795	
Costau staff	7	2,186		2,006	
Dibrisiant	10	129		113	
Amorteiddiad	11	10		9	
Taliadau tybiannol - cost cyfalaf	8	237		250	
		3,270		3,173	
<b>Cyfanswm gwariant</b>			457,304		453,468
<b>Incwm o weithgareddau</b>	2		12,563		19,752
<b>Costau gweithredol net cyn llog ac adfeddiannau</b>			(444,741)		(433,716)
Llog y gellir ei dderbyn	9		460		356
Adfeddiannau	9		(460)		(356)
<b>Costau gweithredol net am y flwyddyn wedi'u trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol</b>			(444,741)		(433,716)
<b>Symudiad ar y gronfa gyffredinol</b>					
Gweddill a ddygwyd ymlaen			7,180		7,150
Costau gweithredol net am y flwyddyn			(444,741)		(433,716)
Cymorth grant LICC			443,646		433,496
Cost dybiannol addasiad cyfalaf			237		250
Gweddill a gariwyd ymlaen			6,322		7,180
Mae'r holl weithgareddau'n parhau.					
Nid oes unrhyw enillion a cholledion cydnabyddedig yn 2007-08 nac yn 2006-07.					

Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 68 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Mantolen ar 31 Mawrth 2008

	Nodiadau	2008		2007 ailddatganwyd	
		£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Asedau sefydlog</b>					
Asedau sefydlog cyffyrddadwy	10		246		117
Asedau sefydlog anghyffyrddadwy	11		-		10
			246		127
<b>Asedau cyfredol</b>					
Dyledwyr	12	844		1,448	
Arian yn y banc ac mewn llaw	21	6,001		6,230	
		6,845		7,678	
<b>Credydwyr</b>					
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	13	(769)		(625)	
Asedau cyfredol net			6,076		7,053
<b>Asedau net</b>			6,322		7,180
<b>Ariannwyd gan :</b>					
<b>Cyfalaf a chronfeydd</b>					
Cronfa gyffredinol	14		6,322		7,180
<b>Cyfanswm cyllid y llywodraeth</b>	14		6,322		7,180

Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 68 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Llofnodwyd ar ran y Cyngor



**Yr Athro Philip Gummert**  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo  
15 Gorffennaf 2008

# Datganiad Ilif arian am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2008

		2008	2007 ailldatganwyd
	Nodiadau	£'000	£'000
<b>Gweithgareddau gweithredol</b>			
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol	20	(443,854)	(434,089)
<b>Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid</b>			
Llog a dderbyniwyd		448	346
Llog a ildwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru		(448)	(346)
<b>Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol</b>			
Taliadau i brynu asedau sefydlog cyffyrddadwy	10	(258)	(43)
<b>All-lif arian net cyn ariannu</b>		(444,112)	(434,132)
<b>Ariannu</b>			
Cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru		443,646	433,496
Cost dybiannol addasiad cyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru	8	237	250
<b>Gostyngiad mewn arian</b>	21	(229)	(386)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 68 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Nodiadau i'r cyfrifon

### 1. Polisiau cyfrifo

#### (a) Sail y cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â chyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymreig, gyda chaniatâd y Trysorlys, gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd gan baragraff 16(2), atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Paratowyd y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig ac yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 1985, Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a'r Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r graddau y mae'r gofynion hyn yn briodol. Caiff asedau sefydlog eu prisio ar sail cost hanesyddol ar ôl tynnu dibrisiant ac nid ydynt wedi cael eu hailbriso gan na fyddai'r fath addasiad yn bwysig ym marn y Cyngor.

#### (b) Grantiau ar gyfer prosiectau Undeb Ewropeidd (UE)

*Incwm:*

Bydd y Cyngor yn derbyn incwm grant yn ymwneud â phrosiectau UE o ddwy ffynhonnell. Mae incwm grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael ei gredu i'r gronfa gyffredinol yn y flwyddyn yr eir i'r gwariant. Caiff incwm yr UE i gynnal prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ei gredu i'r datganiad cost weithredol yn y flwyddyn y telir am y gwariant.

*Gwariant:*

Fel y sawl sy'n gwneud cais am brosiectau Ewropeidd ac yn contractio gyda thrydydd partïon i'w gweithredu, mae atebolrwydd y Cyngor yn codi pan dderbynnir cais dilys gan dderbynnwyd y grant.

#### (c) Cyllid

Derbynnir cymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyllido gweithgareddau refeniw a chyfalaf cyffredinol. Ystyrir mai ariannu yw'r swm hwn o gymorth grant, ac fe'i credydir i'r gronfa gyffredinol pan dderbynnir ef.

#### (d) Grantiau sy'n daladwy

Paratwir y cyfrifon hyn ar sail blwyddyn ariannol hyd 31 Mawrth, ond mae grantiau sy'n daladwy yn cael eu rhoi ar sail blwyddyn academiaidd hyd 31 Gorffennaf. Caiff grantiau sy'n daladwy eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae derbynnydd y grant yn ymgymryd â'r gweithgaredd sy'n creu hawl. Caiff grantiau rheolaidd, sef, yn bennaf, y cyllid rheolaidd a chyfalaf a ddyrennir i Sefydliadau Addysg Uwch, eu dwyn i gyfrif pan delir hwy. Ym marn y Cyngor, mae'r drefn hon yn cyflawni i bob pwrpas gyfatebiaeth rhwng cyllid grant a ddygir i gyfrif a'r patrwm o weithgarwch ariannol yn y Sefydliadau Addysg Uwch.

#### (e) Taliadau tybiannol

*Cost Cyfalaf:*

Yn unol ag arweiniad Gweinidogion Cymreig, mae tâl cyfalaf tybiannol sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd wedi cael ei gynnwys yn y costau gweithredol, wedi'i gyfrifo yn ôl 3.5% (2006-07 - 3.5%) o'r cyfalaf a ddefnyddiwyd.

#### (f) Costau pensiwn

Mae staff blaenorol a phresennol yn dod o fewn darpariaethau trefniadau'r Pensiwn Gwasanaeth Sifil (PGS). Mae'r Cyngor yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau ei staff drwy dalu i'r trefniadau PGS symiau a gyfrifir ar sail groniodol. Mae atebolrwydd i dalu buddion yn y dyfodol yn godiant ar y trefniadau PGS.

#### (g) Asedau sefydlog cyffyrddadwy

Mae cyfarpar TG sy'n costio mwy na £500 ac unrhyw osodion, ffitiadau neu gyfarpar sy'n costio mwy na £1,000 yn cael eu cyfalafu.

Darperir dibrisiant ar yr holl asedau sefydlog cyffyrddadwy ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost pob ased ar sail linell syth yn ystod ei oes fuddiol ddisgwyliedig, fel y dangosir isod. Codir blwyddyn lawn o ddibrisiant ym mlwyddyn y caffael.

Cyfarpar TG	- 3 blynedd
Cyfarpar trydanol	- 5 mlynedd
Gosodion a ffitiadau	- 5 mlynedd

Caiff unrhyw newidiadau i'r swyddfa, gan gynnwys i osodion a ffitiadau, eu hamorteiddio dros y cyfnod sy'n weddill o'r brydles, o'r dyddiad prynu.

### (h) Asedau sefydlog anghyffyrddadwy

Caiff trwyddedau meddalwedd sy'n costio mwy na £500 eu cyfalafu.

Darperir amorteiddiad ar yr holl asedau sefydlog anghyffyrddadwy ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost pob ased ar sail linell syth yn ystod ei oes fuddiol ddisgwyliedig, fel y dangosir isod. Codir blwyddyn lawn o amorteiddiad ym mlwyddyn y caffael.

Trwyddedau meddalwedd	- 3 blynedd
-----------------------	-------------

### (i) Treth Ar Werth

Gan nad yw'r Cyngor wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, mae'r holl drafodion yn y cyfrifon yn cynnwys unrhyw TAW briodoladwy.

### (j) Prydlesau Gweithredol

Mae rhentolion prydles gweithredol yn cael eu cynnwys yn y datganiad cost weithredol yn y flwyddyn y maent yn gysylltiedig â hi.

## 2. Incwm o weithgareddau

	2008	2007
	£'000	£'000
Llywodraeth Cynulliad Cymru – Cronfeydd wrth gefn ariannol, bwrsariau mynediad i fyfyrwyr aeddfed a chronfeydd cynorthwyo myfyrwyr y Brifysgol Agored (a)	81	5,278
Undeb Ewropeaidd – Cronfa Gymdeithasol Ewrop	-	1,992
Swyddfa Gwyddoniaeth ac Arloesedd – Cronfa Buddsoddi mewn Ymchwil Gwyddoniaeth	12,482	12,482
	12,563	19,752

(a) Derbynnir y cyllid hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w ddsbarthu yn y sector AU. Prif bwrpas y cyllid yw darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn achosion o galedi. O 2007-08, mae'r holl gyllid, heblaw am gronfeydd cynorthwyo myfyrwyr y Brifysgol Agored, yn cael eu dosbarthu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.



### 3. Cyllido addysg uwch

	Rheolaidd	2008		2007
		Cyfalaf	Cyfanswm	Cyfanswm wedi'i aiddatgan
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Sefydliadau Addysg Uwch</b>				
Prifysgol Aberystwyth	38,322	621	38,943	39,087
Prifysgol Bangor	37,467	581	38,048	38,638
Prifysgol Caerdydd	123,398	1,643	125,041	117,773
Prifysgol Abertawe	48,179	679	48,858	44,888
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	7,612	121	7,733	7,401
Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru	17,097	369	17,466	17,545
Prifysgol Cymru, Casnewydd	21,654	459	22,113	21,884
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	29,903	636	30,539	31,305
Prifysgol Fetropolitan Abertawe (gweler (a) isod)	16,301	366	16,667	18,016
Coleg y Drindod Caerfyrddin	7,872	139	8,011	7,147
Prifysgol Morgannwg (gweler (b) isod)	56,705	1,662	58,367	54,604
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (gweler (b) isod)	-	-	-	4,996
Cofrestrfa Prifysgol Cymru	769	-	769	1,420
Y Brifysgol Agored	8,850	-	8,850	7,688
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>414,129</b>	<b>7,276</b>	<b>421,405</b>	<b>412,392</b>
<b>Sefydliadau Addysg Bellach</b>				
Coleg Pen-y-bont	99	-	99	67
Coleg Sir Gâr	1,115	-	1,115	1,183
Coleg Llandrillo	1,291	-	1,291	1,350
Coleg Menai	59	-	59	53
Coleg Castell-nedd Port Talbot	112	-	112	115
Coleg Morgannwg	60	-	60	420
Coleg Abertawe	32	-	32	38
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>2,768</b>	<b>-</b>	<b>2,768</b>	<b>3,226</b>

	2008			2007
	Rheolaidd	Cyfalaf	Cyfanswm	Cyfanswm wedi'i ailddatgan
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cyrff Eraill</b>				
Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd	49	-	49	-
Arad Consulting Ltd	-	-	-	40
Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol	690	-	690	1,000
EKOS Consulting	-	-	-	24
Yr Uned Her Cydraddoldeb	45	-	45	30
Partneriaeth Gus John	26	-	26	-
Evidence Ltd	-	-	-	21
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE)	3,346	315	3,661	3,237
HERO Ltd	29	-	29	28
Yr Academi Addysg Uwch	894	-	894	885
JANET (UK) Ltd	134	214	348	-
Y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth	-	-	-	49
Integrated Web Systems Ltd	-	-	-	20
London Economics	-	-	-	27
Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd	232	-	232	77
SQW Ltd	-	-	-	21
UKERNA	-	-	-	146
Prifysgolion y DU	56	-	56	56
Swyddfa Archwilio Cymru – ffioedd archwilio, prosiectau wedi'u cyllido gan yr UE	-	-	-	14
York Consulting Ltd	-	-	-	27
Eraill	483	23	506	452
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>5,984</b>	<b>552</b>	<b>6,536</b>	<b>6,154</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>422,881</b>	<b>7,828</b>	<b>430,709</b>	<b>421,772</b>
<b>Tynner gwariant wedi'i gyllido gan CGE (gw. nodyn 5)</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(1,917)</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>422,881</b>	<b>7,828</b>	<b>430,709</b>	<b>419,855</b>

(a) Ym mis Ionawr 2008, newidiodd Athrofa Addysg Uwch Abertawe ei henw i Brifysgol Fetropolitan Abertawe

(b) Ar 1 Ionawr 2007, daeth Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn is-gwmni y mae Prifysgol Morgannwg yn llwyr berchen arno.

## 4. Grantiau i sefydliadau

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys grantiau i sefydliadau, sy'n cael eu harchwilio gan archwilwyr allanol y derbynwyr er mwyn dangos i'r grantiau gael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd. Mae blwyddyn ariannol sefydliadau addysg uwch yn gorffen ar 31 Gorffennaf ac mae'r Cyngor yn disgwyl derbyn cyfrifon wedi'u harchwilio erbyn 31 Rhagfyr. Mae adolygiad gan staff y Cyngor o ddatganiadau ariannol 2006/07 y sefydliadau wedi dangos bod yr archwilwyr allanol yn ystyried i'r grantiau gael eu defnyddio at y dibenion a

fwriadwyd ac nad oedd angen unrhyw addasiadau i'r grantiau. Yn ogystal, nid arweiniodd yr archwiliad o nifer y myfyrwyr a wnaed yn yr haf 2007 at unrhyw addasiadau o bwys. Bydd unrhyw addasiadau sy'n codi o archwilio cyfrifon y sefydliadau a nifer y myfyrwyr yn 2007/2008 yn cael eu gwneud gan y Cyngor yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau i grantiau a dderbyniodd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gael eu defnyddio at y pwrpasau a gymeradwywyd.

## 5. Gwariant at ddibenion eraill

	2008	2007
	£'000	£'000
Cronfeydd wrth gefn ariannol a bwrsariau mynediad i fyfyrwyr aeddfed (a)	81	5,279
Cronfa Gymdeithasol Ewrop (b)	-	1,917
Cronfa Buddsoddi mewn Ymchwil Gwyddoniaeth	23,244	23,244
	23,325	30,440

(a) Mae'r gwariant hwn yn ymwneud ag arian a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at bwrpas darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn achosion o galedi.

(b) Cynhelir archwiliadau ar wahân o'r symiau'n ymwneud â'r taliadau grant a wneir o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE). Bydd unrhyw addasiadau sy'n codi o'r archwiliadau hyn yn cael eu gwneud yn y blynyddoedd i ddod.

## 6. Costau gweinyddu

	2008	2007
	£'000	£'000
Costau adeiladau	357	347
Costau swyddfa	61	90
Gwasanaethau a brynwyd i mewn	16	47
Tâl archwilwyr - Ffi archwilio flynyddol CCAUC	16	16
Tâl archwilwyr - Gwaith adroddiad sicrhau ychwanegol	4	4
Costau teithio a chynhaliadau aelodau'r Cyngor	10	9
Costau cyfarfodydd aelodau'r Cyngor	20	22
Costau teithio a chynhaliadau staff	36	44
Gwariant yn gysylltiedig â staff ar hyfforddiant ac ati	89	105
Costau technoleg gwybodaeth	99	111
	708	795

Nid yw'r costau gweinyddu yn cynnwys £22k a roddwyd o dan gostau rheolaidd rhaglenni (2007 - £22k).

## 7. Costau staff (a) Dadansoddiad

	2008			2007		
	Staff	Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys Prif Weithredwr)	Cyfanswm	Staff	Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys Prif Weithredwr)	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau	1,834	172	2,006	1,788	160	1,948
Costau nawdd cymdeithasol	146	13	159	140	14	154
Costau pensiwn eraill	367	27	394	328	25	353
Costau colli gwaith	53	-	53	-	-	-
Cyfanswm costau rhestr gyflogau	2,400	212	2,612	2,256	199	2,455
Tynnu costau a roddwyd o dan gostau rheolaidd rhaglenni	(426)	-	(426)	(449)	-	(449)
Costau rhestr gyflogau gweinyddol	1,974	212	2,186	1,807	199	2,006

### (b) Pensiynau

Cynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr heb ei gyllido yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ond ni all CCAUC ddweud beth yw ei gyfran o'r asedau a dyledion gwaelodol. Prisiodd actwari'r cynllun y cynllun ar 31 Mawrth 2007. Gellir gweld y manylion yng nghyfrifon adnodd Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil ([www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk)).

Yn 2007-08, roedd cyfraniadau cyflogwr o £394,150 yn daladwy i PGPFS (2006-07 £353,045) ar un o'r pedair cyfradd yn yr amrediad 17.1 i 25.5 y cant o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog (roedd y cyfraddau yr un fath ag yn 2006-07). Caiff cyfraniadau'r cyflogwr eu hadolygu gan actwari'r cynllun bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. O 2008-09, caiff y bandiau cyflog eu hadolygu ond bydd y cyfraddau yn aros yr un fath (bydd y cyfraddau'n newid ym mis Ebrill 2009). Gosodir y cyfraddau cyfrannu i gwrdd â chost buddion sy'n cronni yn ystod 2007-08 a delir pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir i bensiynwyr presennol yn ystod y cyfnod hwn.

### (c) Nifer cyfartalog o staff a gyflogwyd

Ar gyfartaledd, cyflogodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 56 o staff cyfwerth ag amser-llawn yn ystod y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2008, fel a ganlyn:

### (c) Nifer cyfartalog o staff a gyflogwyd

	2008	2007
	Nifer	Nifer
Uwch Reolwyr	2	2
Timau Polisi	29	30
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	25	25
	56	57
Staff â chytundeb cyflogaeth parhaol yn y DU	54	54
Staff eraill – dros dro	1	1
Staff eraill – ar secondiad	1	2
	56	57

## 8. Taliadau tybiannol

	2008	2007 ailddatganwyd
	£'000	£'000
Cost cyfalaf – 3.5 % (2007 – 3.5%) o'r cyfalaf a ddefnyddiwyd	237	250

## 9. Adfeddiannau

	2008	2007
	£'000	£'000
Derbyniadau y gellir eu hildio i Lywodraeth Cynulliad Cymru:		
Llog banc	460	356

## 10. Asedau sefydlog cyffyrddadwy

	Cyfarpar TG	Gosodion a Ffitiadau	Cyfarpar Trydanol	Cyfanswm
Cost	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill 2007	300	31	50	381
Ychwanegiadau	88	170	-	258
Gwarediadau	(18)	-	-	(18)
Ar 31 Mawrth 2008	370	201	50	621
<b>Dibrisiant</b>				
Ar 1 Ebrill 2007	216	25	23	264
Codwyd yn ystod y flwyddyn	103	16	10	129
Rhyddhawyd drwy waredu	(18)	-	-	(18)
Ar 31 Mawrth 2008	301	41	33	375
Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2008	69	160	17	246
Gwerth net ar bapur ar 1 Ebrill 2007	84	6	27	117

## 11. Asedau sefydlog anghyffyrddadwy

	Trwyddedau meddalwedd
Cost	£'000
Ar 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2008	29
Amorteiddiad	
Ar 1 Ebrill 2007	19
Codwyd yn ystod y flwyddyn	10
Ar 31 Mawrth 2008	29
Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2008	-
Gwerth net ar bapur ar 1 Ebrill 2007	10

## 12. Dyledwyr

	2008	2007 ailddatganwyd
	£'000	£'000
Dyledwyr masnach	1	-
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	158	213
Gweddillion gyda chyrrff eraill y llywodraeth ganolog	685	1,235
	844	1,448

Mae rhagdaliadau ar 31 Mawrth 2007 wedi cael eu hailddatgan i gael gwared â rhagdaliadau o £4.588m er mwyn adlewyrchu'n gywir bolisi cyfrifo 1(d) drwy gydnabod grantiau pan delir hwy (gweler nodyn 14).

## 13. Credydwyr : Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn

	2008	2007
	£'000	£'000
Credydwyr masnach	-	107
Croniadau	769	518
	769	625

## 14. Effaith addasiad cyfnod blaenorol ar gronfeydd cyffredinol

	2007 ailldatganwyd
	£'000
<b>Cronfa gyffredinol</b>	
<b>Ar 31 Mawrth 2007</b>	
Fel y'i datganwyd yn wreiddiol	11,768
Addasiad i ragdaliadau (gweler nodyn 12)	(4,588)
Ar 31 Mawrth 2007 - ailldatganwyd	7,180

## 15. Rhwymedigaethau prydles

	2008	2007
	£'000	£'000
Symiau a gynhwyswyd yn y datganiad cost weithredol am rentolion prydles gweithredol mewn perthynas ag adeiladau	157	157
<b>Ymrwymiad blynyddol ar brydlesau'n dod i ben o fewn:</b>		
Un flwyddyn	-	68
Dwy i bum mlynedd	-	-
Dros bum mlynedd	164	91

## 16. Ymrwymïadau cyfalaf

	2008	2007
	£'000	£'000
Contractiwyd	-	4

## 17. Ymrwymiadau ariannol

	2008	2007
	£'000	£'000
Grantiau refeniw (a)	143,623	157,553
Prosiectau Ewropeaidd (b)	23	23
	143,646	157,576

(a) Caiff y swm hwn ei gyllido drwy gymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

(b) Caiff prosiectau Ewropeaidd eu cyllido fel a ganlyn:

	2008	2007
	£'000	£'000
Grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop	23	23
	23	23

Mae gan y prosiectau Ewropeaidd ymrwymiadau ariannol o £38k hefyd a gaiff eu cyllido gan gyfraniadau cyllid cyfatebol allanol gan sefydliadau Addysg Uwch a mentrau bach a chanolig.

## 18. Colledion a thaliadau arbennig

	2008	2007
	£	£
Taliadau ofer	249	708



## 19. Trafodion â phartion cysylltiedig

Ystyrir bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae CCAUC wedi cael amryw o drafodion o bwys â Llywodraeth Cynulliad Cymru yr ystyrir ei bod yn rhiant Adran.

Mae'r aelodau canlynol o'r Cyngor a'r uwch reolwyr canlynol wedi ymgymryd â chysylltiadau neu drafodion sy'n cael eu hystyried yn bartion cysylltiedig, a ddangosir yn y tabl isod: -

Enw	Cysylltiad
Dr Len Arthur (aelod o'r Cyngor)	<ul style="list-style-type: none"> <li>◆ Uwch Ddarlithydd, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.</li> <li>◆ Mab yng Nghyfraith, Comisiwn Ewropeaidd, Ymgynghoriad Fframwaith 7.</li> </ul>
Mr RPV (Tim) Rees (aelod o'r Cyngor)	<ul style="list-style-type: none"> <li>◆ Aelod a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Aelod o Gorff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru.</li> </ul>
Yr Athro Syr Brian Smith (aelod o'r Cyngor)	<ul style="list-style-type: none"> <li>◆ Llysgennad rhyngwladol, Prifysgol Caerdydd.</li> </ul>
Mrs Tina Stephens (aelod o'r Cyngor)	<ul style="list-style-type: none"> <li>◆ Aelod o Fwrdd Ymgynghorol yr Ysgol Busnes a Datblygu Rhanbarthol yn PC Bangor.</li> </ul>
Yr Athro D Garel Rhys, OBE (aelod o'r Cyngor)	<ul style="list-style-type: none"> <li>◆ Cadeirydd, Panel Cynghori ar Ymchwil Economaidd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.</li> <li>◆ Athro Emeritws, Prifysgol Caerdydd.</li> <li>◆ Aelod o Grŵp Ymgynghorol y Gweinidogion (DE&amp;T).</li> <li>◆ Aelod o'r Bwrdd Ymgynghorol Rasio Modur (DTI).</li> <li>◆ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Fetropolitan Abertawe.</li> <li>◆ Merch yng nghyfraith, Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd.</li> </ul>
Yr Athro Nigel Stott, CBE (aelod o'r Cyngor)	<ul style="list-style-type: none"> <li>◆ Athro Emeritws, Coleg Meddygaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd.</li> </ul>
Mr Kenneth Richards (aelod o'r Cyngor)	<ul style="list-style-type: none"> <li>◆ Aelod o'r Pwyllgor Gwaith, Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen</li> <li>◆ Cymrawd Ymchwil Anrhydeddus, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd.</li> <li>◆ Aelod, Pwyllgor Buddsoddiadau Prifysgol Cymru, Aberystwyth.</li> </ul>
Yr Athro Mari Lloyd-Williams (aelod o'r Cyngor)	<ul style="list-style-type: none"> <li>◆ Mab, myfyriwr ym Mhrifysgol Cymru, Bangor.</li> </ul>
Mrs Pauline Thomas (aelod o'r Cyngor)	<ul style="list-style-type: none"> <li>◆ Ysgrifennydd Mygedol, Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgol a Choleg.</li> </ul>
Yr Athro Philip Gummert (Prif Weithredwr)	<ul style="list-style-type: none"> <li>◆ Gwraig, tiwtor rhan-amser ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe.</li> </ul>
Mr Richard Hirst (Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)	<ul style="list-style-type: none"> <li>◆ Cyfarwyddwr Cyfleoedd Addysg Uwch ac Ymchwil (HERO) Cyfyngedig.</li> </ul>

Manylir ar y cyllid a ddyrennir i'r sefydliadau a'r cyrff uchod yn nodyn 3; fel arall, ni thalwyd unrhyw arian yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r un o'r staff rheoli allweddol na phartion cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion o bwys â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

## 20. Cysoni'r costau gweithredol net am y flwyddyn â'r all-lif arian net o weithgareddau gweithredol

	2008	2007 ailddatganwyd
	£'000	£'000
Costau gweithredol net	(444,741)	(433,716)
Taliadau amorteiddiad	10	9
Taliadau dibrisiant	129	113
Gostyngiad mewn dyledwyr	592	662
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr	156	(1,157)
<b>All-lif arian net o weithgareddau gweithredol</b>	<b>(443,854)</b>	<b>(434,089)</b>

## 21. Cysoni llifoedd arian net â symudiadau mewn cyllid net

	2008	2007 ailddatganwyd
	£'000	£'000
Gostyngiad mewn arian	(229)	(386)
Cyllid net ar 1 Ebrill	6,230	6,616
<b>Cyllid net ar 31 Mawrth</b>	<b>6,001</b>	<b>6,230</b>
<b>Dadansoddiad o gyllid net:</b>		
Arian yn y banc ac mewn llaw	6,001	6,230

## 22. Deilliadau ac offerynnau ariannol eraill

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar Lywodraeth Cynulliad Cymru am ei ofynion arian parod ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Nid oes ganddo chwaith unrhyw adneuo'n o bwys ac mae pob ased a dyled o bwys mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfradd llog neu arian cyfred.

## 23. Digwyddiadau ôl-fantolen

Rhoddodd y Swyddog Cyfrifo awdurdod i gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ar 17 Gorffennaf 2008.